

Adroddiad Blynyddol e-Lyfrgell GIG Cymru 2024-2025



e-Lyfrgell GIG Cymru
NHS Wales e-Library

IGDC • DHCW



Tabl Cynnwys

Diben a chwmpas yr adroddiad blynyddol **3**

Cyflwyniad **4**

Eddariad Strategol **5**

Llywodraethu 5

2024 - 25 Amcanion 10

Darparu **22**

2024 - 2025 6.1 Adroddiad Ariannol 22

Defnydd 28

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 23

Meincnodi 39

Hyrwyddo **40**

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 40

Ymgyrchoedd 44

Y Cyfryngau Cymdeithasol 47

Stondinau Arddangos A Chyflwyniadau 48

Cynhadledd E-Lyfrgell GIG Cymru 49

Grymuso **50**

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 50

Dysgu A Hyfforddiant 52

Deallusrwydd Artiffisial 57

Arloesi **54**

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 54

Just In Time 58

Mynediad Agored 58

Grŵp Tasg A Gorffen E-Lyfrau Pum (5) Cenedl Y GIG 58

Datblygiad Proffesiynol Parhaus 59

Cyfeiriadau **61**

Diben a chwmpas yr adroddiad blynyddol

Mae Adroddiad Blynyddol e-Lyfrgell GIG Cymru 2024-25 yn rhoi cipolwg ar y cyflawniadau, y llwyddiannau a'r heriau allweddol i'r gwasanaeth. Mae'n adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs), Safonau Lefel Gwasanaeth, y defnydd o adnoddau digidol, tueddiadau a gweithgarwch yr e-Lyfrgell o ran dysgu, hyfforddiant ac ymgysylltu.


Gweledigaeth e-Lyfrgell GIG Cymru yw **'darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, dan arweiniad defnyddwyr, i hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a grymuso GIG Cymru i wella ac arloesi.'**

Cefnogir hyn gan bedwar (4) nod strategol sy'n llywio ein blaenoriaethau datblygu ar gyfer y Gwasanaeth e-Lyfrgell.

1. **Darparu** gwerth am arian trwy dendrau cystadleuol, adolygu e-adnoddau yn barhaus a gweithio tuag at 'Unwaith i Gymru'
2. **Hyrwyddo'r** Gwasanaeth e-Lyfrgell a'i e-adnoddau trwy gyfleoedd ymgysylltu newydd a phresennol
3. **Grymuso** GIG Cymru trwy ddarparu cyfleoedd dysgu ac addysg ar gyfer ein hadnoddau electronig, a systemau y gallant ddibynnu arnynt
4. **Arloesi**, datblygu a thyfu ein casgliadau a'n systemau fel eu bod yn parhau i gyd-fynd ag arferion llyfrgell a gwybodaeth a thechnolegau iechyd digidol

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol e-Lyfrgell GIG Cymru sy'n cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2024 - Mawrth 2025.



e-Lyfrgell GIG Cymru NHS Wales e-Library

IGDC • DHCW

Mae'r e-Lyfrgell wedi cael blwyddyn lwyddiannus yn datblygu a thyfu'r casgliad ac yn cefnogi ein partneriaid strategol, ein rhanddeiliaid a'n defnyddwyr terfynol gyda chyfleoedd dysgu a hyfforddi. Rydym yn falch o'r cydweithio traws-sector a thraws-sefydliadol yr ydym naill ai wedi'i arwain neu wedi bod yn rhan ohono o ran datblygu a chaffael casgliadau, ac rydym yn edrych ymlaen at fwy o hyn yn

y blynyddoedd i ddod. Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol ym maes Deallusrwydd Artiffisial wrth ddatblygu canllawiau ar-lein ar gyfer defnyddwyr a drafftio ein polisi ein hunain i gefnogi defnyddwyr sy'n defnyddio ffynonellau gwybodaeth ac offer. Yn ogystal â'n cyflawniadau, rydym wedi neilltuo amser i feysydd i'w gwella gan gynnwys y defnydd ar draws offer cefnogi penderfyniadau clinigol, canllawiau ac e-ddysgu ac rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer integreiddio ac offer i gefnogi mynediad i wybodaeth.

Mae'r tîm yn ddyledus iawn am ei lwyddiant i Wasanaethau Masnachol Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), Timau Cyllid, ein partneriaid strategol ymroddedig ar draws Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru, ei hyrwyddwyr e-Lyfrgell a'i ddefnyddwyr terfynol sydd wedi bod yn hanfodol wrth gyflawni ein cynllun blynyddol 2024-25.

Eddariad Strategol

Mae e-Lyfrgell GIG Cymru wedi cyflawni saith (7) o'i deg (10) Safon Lefel Gwasanaeth, deunaw (18) o'i thri ar hugain (23) o amcanion, ac mae wedi ailstrwythuro Grŵp Hyrwyddwyr yr e-Lyfrgell i annog mwy o gyfranogiad a chyfleoedd i roi adborth gan gynyddu nifer yr aelodau 42% a'r proffesiynau/arbenigeddau y maent yn eu cynrychioli.


Llywodraethu

Tîm E-Lyfrgell GIG Cymru

Tyfodd tîm yr e-Lyfrgell o dair (3) swydd Gyfwerth ag Amser Cyflawn (WTE) i bump (5) o fis Ebrill 2024. Croesawodd y tîm ddwy (2) swydd barhaol newydd:

- Arweinydd Arbenigol e-Lyfrgell GIG Cymru, sy'n gyfrifol am gaffael fframweithiau, rheoli adnoddau digidol a chefnogi anghenion llyfrgell a gwybodaeth lechyd a Gofal Digidol Cymru
- Swyddog e-Lyfrgell GIG Cymru, sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol i dîm yr e-Lyfrgell, trefnu cyfarfodydd adolygu contractau, casglu a chofnodi'r defnydd o ddata a chynorthwyo gyda gweithgarwch ymgysylltu a hyrwyddo

Mae tîm yr e-Lyfrgell wedi'i strwythuro fel a ganlyn:



Roedd y capasiti ychwanegol yn rhoi modd i'r tîm gyflawni un ar ddeg (11) o ymarferion masnachol ar amser gan gefnogi mynediad parhaus, gwell gwerth am arian ac adnoddau o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer GIG Cymru a'r sylfaen defnyddwyr awdurdodedig ehangach.

Bwrdd Gwasanaeth E-Lyfrgell GIG Cymru

Ym mis Medi 2024, gwnaeth Bwrdd Gwasanaeth e-Lyfrgell GIG Cymru ffarwelio â'r aelod hirdymor Meg Gorman, Llyfrgellydd Partneriaethau Llyfrgelloedd GIG Cymru, a ymddeolodd o'i rôl. Hoffai tîm yr e-Lyfrgell ddiolch i Meg am ei chefnogaeth barhaus i'r gwasanaeth.

Ym mis Ionawr 2025, croesawodd y Bwrdd Katrina Hall, Llyfrgellydd Partneriaethau Llyfrgelloedd GIG Cymru, sy'n cynrychioli Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth GIG Cymru ochr yn ochr â'i dau (2) gydweithiwr.

Mae Bwrdd Gwasanaeth yr e-Lyfrgell wedi cyfarfod ac ystyried papurau a gyflwynwyd gan dîm yr e-Lyfrgell o leiaf bedair (4) gwaith y flwyddyn. Gyda phroses lywodraethu gadarn, mae'r bwrdd wedi cytuno ar weithgarwch ail-gaffael, datblygu gwasanaethau, polisiau a chynlluniau.




Hyrwyddwyr E-Lyfrgell GIG Cymru

Sefydlwyd Grŵp Hyrwyddwyr e-Lyfrgell GIG Cymru gyntaf yn 2017 ac yn gynnar yn 2024, ailstrwythurwyd fformat y grŵp i gefnogi cyfarfodydd byrrach, mwy rheolaidd gydag eitemau agenda penodol i annog trafodaeth agored a chyfleoedd i dîm yr e-Lyfrgell a Bwrdd y Gwasanaeth fyfyrion wirioneddol ar adborth defnyddwyr. O ganlyniad i'r gwaith ailstrwythuro, nid oes terfyn uchaf bellach ar nifer yr hyrwyddwyr o grwpiau neu sefydliadau proffesiynol a all gymryd rhan, ac mae'r nifer o hyrwyddwyr yr e-Lyfrgell wedi cynyddu 42% o 15 ym mis Mawrth 2024 i 26 ym mis Mawrth 2025.



Safonau Lefel Gwasanaeth

Cyflawnwyd saith (7) o'r deg (10) Safon Lefel Gwasanaeth y mae'r e-Lyfrgell yn eu cynnal i gefnogi gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol i ddefnyddwyr ei gwasanaeth yn 2024-25. Yn sgil cyhoeddi Cytundeb Fframwaith Cynnwys Electronig a Phrint newydd NICE ym mis Gorffennaf 2025, bydd y Safonau Lefel Gwasanaeth yn cael eu hadolygu yn 2025-26 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Safonau Gwasanaeth Craidd a ddiffinnir yn nhrwydded Cynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCC) y mae cyflenwyr e-Lyfrgell yn cydymffurfio â nhw i ganiatáu cydraddoldeb rhwng gwasanaethau.

Safon Lefel Gwasanaeth	Wedi'i chyflawni	Sylwebaeth
Cydnabyddir pob ymholiad a anfonir at elibrary@wales.nhs.uk o fewn un (1) diwrnod gwaith.	Nac ydy 	Ni chafwyd ymateb gan bum(5) defnyddiwr terfynol o bedwar cant pum deg ac un (451) o ymholiadau ymateb o fewn un (1) diwrnod gwaith.
Bydd pob ymholiad technegol yn cael ei ddatrys o fewn pum (5) niwrnod gwaith.	Nac ydy 	Ni ellid datrys dau ddeg saith (27) o ddau gant a deugain (240) o ymholiadau technegol o fewn pum (5) diwrnod gwaith gan eu bod angen ymyrraeth cyflenwr a/neu eu bod yn gymhleth i'w datrys.
Bydd pob ymholiad a phryder cyffredinol yn cael eu datrys o fewn saith (7) diwrnod gwaith.	Nac ydy 	Ni ellid datrys tri ar ddeg (13) o'r mil a phedwar deg chwech (1,046) o ymholiadau cyffredinol o fewn saith (7) diwrnod gwaith gan eu bod yn gofyn am newidiadau sylweddol i brosesau, gweithdrefnau neu ryngwyneb y wefan neu'n gofyn am fewnbwn gan gyflenwyr lle mae ganddynt 18 diwrnod ar hyn o bryd i gefnogi defnyddwyr i gyrraedd datrysiad.

Safon Lefel Gwasanaeth	Wedi'i chyflawni	Sylwebaeth
Bydd pob ymholiad technegol a chyffredinol a nodir fel ymholiad trydydd parti yn cael ei uwchgyfeirio at gyflenwyr o fewn un (1) diwrnod gwaith.	Ydy 	Cafodd pum deg naw (59) o ymholiadau eu huwchgyfeirio at gyflenwyr trydydd parti i gefnogi datrysiad.
Bydd ymholwyr yn cael gwybod am y cynnydd o fewn un (1) diwrnod gwaith ar ôl i ymholiad ddod i law gan y cyflenwr trydydd parti.	Ydy 	
Yn ystod oriau busnes craidd yr e-Lyfrgell (09:00 – 16:00), ceir mynediad at staff cymwys proffesiynol 95% o'r amser, ac eithrio hawliau gwyliau blynyddol.	Ydy 	Roedd o leiaf un (1) aelod o staff â chymwysterau proffesiynol ar gael 100% o'r amser yn ystod oriau busnes craidd.
Bydd e-adnoddau a systemau digidol a gaffaelir gan yr e-Lyfrgell ar gael 24/7 am 99.8% o'r amser (ac eithrio cyfnodau o amser segur/cynnal a chadw a hysbysebir)	Ydy 	Trwy gyfarfodydd adolygu contractau, mae cyflenwyr wedi cadarnhau bod yr holl adnoddau a gaffaelwyd gan Lyfrgell-e GIG Cymru wedi bod ar gael 24/7 am 99.8% o'r amser ac eithrio cyfnodau cynnal a chadw wedi'u gynllunio/eu hamserlennu.

Safon Lefel Gwasanaeth	Wedi'i chyflawni	Sylwebaeth
Bydd gwefan yr e-Lyfrgell ar gael 98% o'r amser (ac eithrio cyfnodau o amser segur/cynnal a chadw a hysbysebiri), a bydd dolenni i adnoddau digidol a gaffaelwyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod y cynnwys yn hygyrch.	Ydy 	Mae Tîm System Rheoli Cynnwys (CMS) IGDC wedi cyngori bod Mura (CMS) wedi bod ar gael am 99% o'r amser, a bod pob dolen i adnoddau digidol a gaffaelwyd ar wefan yr e-Lyfrgell yn datrys yn ôl y disgwyl.
Bydd pob (100%) contract e-Lyfrgell yn cael ei adolygu gyda chyflenwyr bob blwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth â Dangosyddion Perfformiad Allweddol a bod rhwymedigaethau cytundebol yn cael eu bodloni.	Ydy 	Mae pob contract e-Lyfrgell wedi cael adolygiad blynyddol o leiaf. Mae rhai contractau fel Gwybodaeth am Feddyginiaethau wedi cael adolygiadau bob chwe (6) mis.
Bydd yr holl gynnwys (100%) a gyhoeddir gan yr e-Lyfrgell neu mewn partneriaeth â hi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Ydy 	Mae'r e-Lyfrgell wedi ymrwmo i sicrhau bod yr holl gynnwys a grëir ar gyfer defnydd cyhoeddus, naill ai wedi'i greu gan dîm yr e-Lyfrgell neu wedi'i letya ar ran ein cyflenwyr, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys gwefan yr e-Lyfrgell, deunyddiau marchnata a hyrwyddo, postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, adroddiadau, polisiau a gweithdrefnau.

2024 - 25 Amcanion

At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi grwpio'r holl weithgarwch caffael yn un (1) amcan ac rydym wedi ychwanegu'r y gweithgarwch yr ymgwymerwyd ag ef yn y blwch 'sylwadau'. O'r tri ar hugain (23) o amcanion a restrir isod, cyflawnwyd deunaw (18) ac ni chyflawnwyd pump (5) ohonynt. O'r pum (5) amcan nas cyflawnwyd, mae pedwar (4) wedi cael eu hailbroffilio, ac mae un (1) wedi'i gynnwys mewn amcan newydd yn y strategaeth tair blynedd newydd.

Wedi'i Gyflawni

Amcan

Adolygu strategaethau, polisiau a gweithdrefnau e-Lyfrgell GIG Cymru i sicrhau eu bod yn bodloni safonau'r diwydiant.



Sylwebaeth

Adolygwyd a diweddarwyd y dogfennau canlynol:

- Polisi Datblygu Casgliadau
- Polisi Defnyddwyr Awdurdodedig
- Model Cymorth e-Lyfrgell GIG Cymru
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chytundebau Lefel Gwasanaeth e-Lyfrgell GIG Cymru

Crëwyd y ddogfennaeth ganlynol i osod y cyfeiriad a chefnogi'r gwasanaeth e-Lyfrgell:

- **Strategaeth Tair Blynedd e-Lyfrgell GIG Cymru 2025-28**
- Cynllun Parhad Busnes
- **Polisi Deallusrwydd Artiffisial (AI) at ddibenion llyfrgelloedd, gwybodaeth ac ymchwil** (yn aros am

gymeradwyaeth, i'w gael ym mis Medi 2025)

Crëwyd y ddogfennaeth ganlynol i gefnogi rhanddeiliaid

- Nodiadau canllaw i ddefnyddwyr awdurdodedig gan gynnwys gweithdy
- Nodiadau canllaw ynglŷn ag ymgysylltu â chyflenwyr

Crëwyd y ddogfennaeth ganlynol i feincnodi'r gwasanaeth llyfrgell ddigidol cenedlaethol gyda Phum (5) gwlad y GIG, gan gyfeirio at y cynnig gwasanaeth, yr adnoddau sydd ar gael a'r gyllideb i ganfod sefyllfa Cymru o ran y meysydd allweddol hyn.

- **Papur meincnodi (dogfen weithio fyw)**

Amcan

Creu llawlyfr llifau gwaith a gweithdrefnau effeithlon ar gyfer Tîm yr e-Lyfrgell.



Sylwebaeth

Cwblhawyd data defnydd coll (yn ôl sefydliad) a chrëwyd Dangosfwrdd PowerBI ar gyfer Cronfeydd Data i gefnogi gweithwyr llyfrgell a gwybodaeth proffesiynol ar draws grwpiau rhanddeiliaid i gael mynediad i'w data defnydd i gefnogi gweithgareddau hyrwyddo, dysgu a hyfforddi.

Cwblhawyd data defnydd coll ar gyfer e-Lyfrau (yn ôl sefydliad) wrth baratoi ar gyfer creu dangosfwrdd e-Lyfrau yn 2025-26

Dechreuodd adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol 'Darparu' trwy Adroddiad Perfformiad IGDC bob chwarter a chyfrannodd at **Adroddiad Blynyddol Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil IGDC** ar gyfer **2024/2025 ac Adroddiad Blynyddol 2024-25 IGDC.**

Amcan

Create efficient workflows and procedures manual for the e-Library Team.



Sylwebaeth

Adolygir prosesau a gweithdrefnau mewnol bob chwarter a phan fo angen i gefnogi'r gwasanaeth sy'n datblygu.



Amcan

Caffael mynediad cenedlaethol i adnoddau a systemau digidol yn unol ag amserlenni caffael.



Sylwebaeth

Cwblhawyd y gweithgarwch caffael neu fasnachol canlynol:

- Lluniwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer defnyddio Alma/Primo a chytunwyd arno (yn aros am gymeradwyaeth yn 2025-26)
- Adolygwyd OpenAthens ac ymestynnwyd y contract
- Adolygiad OpenAthens i'w ail-gaffael
- Adolygwyd cronfeydd data ac estynnwyd y contract
- Cronfeydd data wedi'u hadolygu i'w hail-gaffael
- Adolygwyd Cronfa Ddata Llyfrgell Cochrane, ac estynnwyd y contract
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd iRefer
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd e-gyfnodolion BMJ
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd Scopus
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd e-gyfnodolion
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd Crynodebau Tystiolaeth
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd BMJ Learning
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd Trip Pro
- Adolygwyd Royal Marsden ac ymestynnwyd y contract
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd Canllawiau Rhagnodi Maudsley
- Adolygwyd ac ail-gaffaelwyd yr Offeryn Gwybodaeth am Feddyginiaethau a Chyffuriau
- Adolygwyd ac ailgytunwyd ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth Canllawiau NEWT
- Adolygwyd argymhellion a chasgliad e-lyfrau, a gaffaelwyd rhifynnau/teitlau newydd am byth

Amcan

Creu a chyflwyno cynllun gweithgarwch ymgysylltu a mecanwaith ar gyfer casglu ystadegau.



Sylwebaeth

Wedi'i gwblhau; defnyddir yr amserlen gweithgarwch i gynllunio gweithgarwch ymgysylltu fesul chwarter ac mae'n cynnwys casglu data i gefnogi'r gwaith o adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol 'Hyrwyddo' a 'Grymuso'.


Amcan

Adolygu a chynyddu'r presenoldeb ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol priodol.



Sylwebaeth

Daeth presenoldeb yr e-Lyfrgell ar X (a elwid gynt yn Twitter) i ben ym mis Medi 2024, a pharhaodd y gwaith o adeiladu proffil ar Instagram a LinkedIn. Dechreuodd y tîm archwilio BlueSky a Microsoft Viva Engage hefyd. Gweler [Cyfryngau Cymdeithasol](#) i gael mwy o wybodaeth.



Amcan

Nodi grwpiau defnyddwyr sydd angen cymorth i ddefnyddio'r e-Lyfrgell a chynyddu eu hyder a'u defnydd o'r gwasanaethau trwy gyflwyno cyflwyniadau, arddangosiadau, gweithdai a defnyddio unrhyw ddulliau ymgysylltu priodol.



Sylwebaeth

Gweler **Cynadleddau a Digwyddiadau** ac **Dysgu a Hyfforddiant (Defnyddwyr Terfynol)** i gael manylion ynghylch cyflwyniadau, arddangosiadau a gweithdai a gyflwynir i ddefnyddwyr terfynol.

Sesiwn Hyfforddi EMPOWER ClinicalKey
Cymhwysedd Diwylliannol

ClinicalKey EMPOWER Training Session
Cultural Competence

26/11/2024
13:00 - 14.00
Ar Lein Online

ELSEVIER

e-Lyfrgell GIG Cymru
NHS Wales e-Library

Amcan

Rhoi sicrwydd i GIG Cymru, Llywodraeth Cymru a chymunedau llyfrgell a gwybodaeth am ein gwybodaeth.



Sylwebaeth

Daeth yn aelodau partner cyflogwr o Gymdeithas y Llyfrgelloedd a Gwybodaeth (CILIP), gan fynychu gweminarau a chynadleddau ar-lein ar bynciau AI a Hawlfraint.

Rhoddodd aelodau'r tîm gyflwyniad yng Nghynhadledd Grŵp Llyfrgelloedd Iechyd (poster) ac aethant i lawer o gynadleddau'r diwydiant. I weld manylion ynghylch y cynadleddau a fynychwyd, gweler **Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Amcan

Cynnwys defnyddwyr GIG Cymru a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ein casgliadau.



Sylwebaeth

Ailddatblygwyd swyddogaeth yr **Hyrwyddwyr e-Lyfrgell** a chynyddwyd cynrychiolaeth. Lansiwyd **arolwg ansoddol newydd** am gronfeydd data i gasglu adborth gan ddefnyddwyr, ac adolygwyd yr holl ymatebion i arolygon ansoddol.

Roedd yr holl weithgarwch caffael yn cynnwys grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn gwahodd rhanddeiliaid a defnyddwyr terfynol i ymuno â gwaith caffael cenedlaethol a'i gefnogi. Dechreuodd y tîm gynllunio cynhadledd hybrid gyntaf yr e-Lyfrgell (Gorffennaf 2025) i ymgysylltu â rhanddeiliaid, dathlu llwyddiannau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Amcan

Arwain defnyddwyr GIG Cymru a Llywodraeth Cymru at y dystiolaeth orau ar gyfer eu hymarfer.



Sylwebaeth

Cyflwynodd yr e-Lyfrgell ganllawiau adnoddau **e-Lyfrgell 'e-Lyfrgell i bobl brysur'** sy'n taflu goleuni ar adegau arbennig drwy gydol y flwyddyn – gan gynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo eiriolaeth dros iechyd a lles, materion pwysig a digwyddiadau diddorol. Mae'r tîm yn bwriadu creu lle pwrpasol ar wefan yr e-Lyfrgell ar gyfer y canllawiau hyn yn 2025-26.

Lansiodd yr e-Lyfrgell ganllawiau hefyd ar **Ddeallusrwydd Artiffisial** gyda'r nod o gefnogi defnyddwyr terfynol sy'n dymuno defnyddio offer AI yn y gofod llyfrgell, gwybodaeth ac ymchwil. Yn olaf, cefnogodd y tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod eu **canllawiau i gefnogi cydweithwyr i ddod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth sy'n berthnasol i iechyd y cyhoedd** ar gael yn ddigidol.

Amcan

Cefnogi defnyddwyr trwy wybodaeth am sut i gyhoeddi.



Sylwebaeth

Cymerodd yr e-Lyfrgell ran yn wythnos Mynediad Agored (Hydref 2024), a datblygodd ei **chanllawiau ar gyfer cyhoeddi**.

Ym mis Chwefror 2025, arweiniodd y tîm ymgyrch mis o hyd ar '**Cael Eich Cyhoeddi**', sy'n cynnwys awgrymiadau gwych gan gyhoeddwyr, golygyddion a gweithwyr llyfrgell a gwybodaeth proffesiynol, yn ogystal â safbwyntiau awduron cyhoeddedig ar y broses gyhoeddi.



Amcan

Cefnogi'r posibilrwydd o ddarparu storfa sefydliadol a Pholisi Mynediad Agored GIG Cymru.



Sylwebaeth

Cyhoeddodd y tîm **bolisi Mynediad Agored IGDC** ym mis Hydref 2024, a gweithredodd y **Storfa Sefydliadol** a'r gwasanaeth Mynediad Agored cyfatebol.

Yn dilyn hyn, cymeradwywyd Astudiaeth Ddichonoldeb Mynediad Agored gan Fwrdd Ymchwil ac Arloesi IGDC i ddarganfod yr awydd am storfa a pholisi cenedlaethol, yn ogystal â Gwasg Agored bosibl. Bydd yr astudiaeth hon yn cael ei datblygu yn 2025-26. Gweler **Mynediad Agored** i gael mwy o wybodaeth.

Amcan

Datblygu gwefan yr e-Lyfrgell i ehangu'r gwasanaeth a gynigiwn.



Sylwebaeth

Arweiniodd y tîm dri (3) gweithdy ar y wefan gyda rhanddeiliaid i glywed adborth ar y wefan bresennol a meysydd i'w gwella; gwnaethant aiddatblygu tudalennau gwe a chreu tudalennau newydd i gefnogi defnyddwyr terfynol. Gweler [Ymgyrchoedd i gael mwy o wybodaeth](#).



Amcan

Gweithredu cynhyrchu cyfrifon 'Just in Time' (JiT) yn Primo VE i gefnogi Mewngofnodi Sengl OpenAthens.



Sylwebaeth

Gan gydweithio â Phrifysgol Caerdydd, gall defnyddwyr awdurdodedig fewngofnodi i [LibrarySearch GIG Cymru](#) (catalog) a holl adnoddau a systemau'r e-Lyfrgell gan ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost a'u cyfrinair neu eu henw defnyddiwr a chyfrinair OpenAthens.

Nid oes angen i ddefnyddwyr gofio dwy (2) set o gymwysterau mwyach. Gweler [Just in Time](#) i gael mwy o wybodaeth.

Amcan

Gwerthuso Mynediad Gofal Cymdeithasol i e-Lyfrgell GIG Cymru yn dilyn y flwyddyn gyntaf o fynediad.



Sylwebaeth

Mae gan Weithwyr Cymdeithasol a Rheolwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig ac unrhyw un sy'n gweithio mewn awdurdod lleol mewn lleoliad gofal cymdeithasol fynediad i'r e-Lyfrgell ers mis Ionawr 2023.

Gwnaeth tîm yr e-Lyfrgell gwblhau gwerthusiad o'r prosiect gan gynnwys dadansoddiad o'r defnydd a nodi'r camau nesaf gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo ac ymgysylltu, gweithdai hyfforddi'r hyfforddwr a datblygu canllawiau pwnc 'e-Lyfrgell ar gyfer pobl brysur'. Gan weithio gyda chydweithwyr o Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd y camau gweithredu hynny'n cael eu rhoi ar waith yn 2025-26.

Amcan

Arwain Grŵp Tasg a Gorffen e-Lyfrau Grŵp Llyfrgelloedd Digidol y Pum (5) Gwlad.



Sylwebaeth

Arweiniodd brosiect i ddatblygu polisi datblygu casgliad e-Lyfrau a rennir a gofynion Gwahoddiad i Dendro (ITT) ar gyfer gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth ar draws y Pum (5) Gwlad i ddefnyddio a chefnogi'r gwaith o gaffael e-Lyfrau. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil bwrdd gwaith, ymgysylltu â chyflenwyr a drafft cychwynol o ddogfennaeth.

Mae cyfnod ymgynghori wedi'i gynllunio ar gyfer chwarter un (1) 2025-26 a'i lansio yn chwarter dau (2). I gael mwy o wybodaeth, gweler **Grŵp Gorchwyl a Gorffen e-Lyfrau Pum (5) Gwlad y GIG.**

Amcan

Sicrhau bod staff e-Lyfrgell a grwpiau llywodraethu yn ddigon medrus mewn meysydd gwerth am arian.



Sylwebaeth

Cwblhaodd aelodau'r tîm weithdai, dysgu a hyfforddiant yn y meysydd canlynol:

- Chwilio am Lenyddiaeth
- Cwrs Adolygu Systematig SURE
- Dylunio Gweledol (creu posteri, taflenni, graffeg)
- Cymryd Cofnodion
- Cyrsiau Excel i ddechreuwyr a chysiau Excel uwch

Amcan

Cwblhau gwaith datblygu'r ochr gefn i gefnogi'r trefniadau newid y gwasanaeth cyfeiriadur o ADFS i Entra ar gyfer OpenAthens.



Sylwebaeth

Gwella'r broses fewngofnodi ar gyfer defnyddwyr GIG Cymru i gryfhau seiberddiogelwch, trwy ddefnyddio dilysu aml-ffactor (MFA). Gweler [Dilysu](#) i gael mwy o wybodaeth.



Heb Ei Gyflawni

**Amcan**

Cynyddu cysylltiadau â Prifysgolion Cymru.

**Sylwebaeth**

Oherwydd capasiti staff a chyflawni ymgyrchoedd yn ymwneud ag ail-gaffael e-adnoddau, cafodd yr amcan hwn ei oedi a'i ailbroffilio i 2026-27 a'r Strategaeth Tair Blynedd newydd. Y nod yw ymgysylltu â'r Prifysgolion yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i fyfyrwyr a'r rhai sy'n graddio ac yn ymuno â GIG Cymru fel y gallant

ddefnyddio'r holl wasanaethau sydd ar gael iddynt. Gellir cyflawni hyn trwy weithio gyda llyfrgellwyr meddygol ac iechyd a gofal, athrawon ac arweinwyr cyrsiau.

Amcan

Rhoi arolwg anghenion defnyddwyr ar waith i nodi meysydd i wella'r gwasanaeth.

**Sylwebaeth**

Oherwydd capasiti staff a chyflawni ymgyrchoedd yn ymwneud ag ail-gaffael e-adnoddau, cafodd yr amcan hwn ei oedi a'i ailbroffilio i 2026-27 a'r Strategaeth Tair Blynedd newydd.

Y nod yw trefnu arolwg agored i ddefnyddwyr terfynol roi adborth strwythuredig ar y gwasanaeth e-Lyfrgell gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu a gwella.

Amcan

Adolygu casgliadau e-Gyfnodolion ac e-Lyfrau Mynediad Agored i'w cynnwys yng nghatalog y llyfrgell a rennir.

**Sylwebaeth**

Oherwydd y swm enfawr o weithgarwch caffael oedd ei angen ar dîm yr e-Lyfrgell yn 2024-25, cafodd yr amcan hwn ei oedi a'i ailbroffilio i 2025-26 i gyd-fynd â lansio'r Polisi Datblygu Casgliadau e-Lyfrau a rennir sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer dewis cynnwys e-Lyfrau Mynediad Agored.

Amcan

Ymchwilio i ffrydiau ariannu posibl, ac o bosibl, drafftio achos busnes ar gyfer cyllid i gefnogi tanysgrifiad cenedlaethol i BSI Online.

**Sylwebaeth**

Oherwydd y swm enfawr o weithgarwch caffael oedd ei angen ar dîm yr e-Lyfrgell yn 2024-25, ni chafodd yr amcan hwn ei ddatblygu. Mae'r adnodd yn parhau i fod ar restr argymhellion yr e-Lyfrgell ac mae ganddo gefnogaeth y Bwrdd Gwasanaeth ar gyfer caffael pan fydd capasiti yn caniatáu.

Amcan

Caffael a gweithredu offeryn cysylltu Llyfrgelloedd i gefnogi mynediad di-dor i gynnwys e-Lyfrgell GIG Cymru.

**Sylwebaeth**

Cafodd y gwaith caffael ei oedi oherwydd bod angen ailbroffilio cyllid i gaffael yr Offeryn Gwybodaeth am Feddyginiaethau a Chyffuriau. Ar ôl i arian gael ei ryddhau wrth gaffael adnoddau eraill trwy broses gystadleuol, bydd yr e-Lyfrgell yn caffael offeryn cysylltu llyfrgelloedd yn 2025-26.


Darparu

Llwyddodd e-Lyfrgell GIG Cymru i gyflawni sefyllfa ariannol gytbwys yn 2024-25 a oedd yn cynnwys un ar ddeg (11) o ailgaffaeliadau cenedlaethol, pedwar (4) estyniad contract a dechrau tri (3) ail-gaffaeliad a oedd i fod i gael eu cynnal yn 2025-26. Mae Tîm Gwasanaethau Masnachol a Chyllid IGDC, a'n partneriaid strategol ymroddedig, rhanddeiliaid a defnyddwyr terfynol, wedi bod yn allweddol wrth gyflawni ein nod strategol o 'ddarparu gwerth am arian...gan weithio tuag at 'Unwaith i Gymru.'

Adroddiad Ariannol




Mae'r e-Lyfrgell yn falch o adrodd, trwy gaffael cystadleuol a rheoli cyllideb yn ofalus, fod yr e-Lyfrgell wedi cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2024-25 gan gyrraedd ei tharged arbedion a osodwyd gan IGDC i gyrraedd targedau arbedion effeithlonrwydd Llywodraeth Cymru. Mae'r siart ganlynol yn manylu ar y gwariant yn ôl math o adnodd.







cynllun gwariant	Cost
E-gyfnodolion	2121897
Crynodebau Tystiolaeth	725810
Gwybodaeth am feddyginiaethau	409825
Cronfeydd Data	391027
Trwyddedau	387042
Costau Staff	279585
Arbedion	74606
Canllawiau	71107
E-ddysgu	61638
Dilysu	39148
E-lyfrau	10947
Arall	5420









Dangosyddion Perfformiad Allweddol



Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) canlynol yn ymwneud â thargedau o ran defnydd a chost fesul defnydd ar gyfer e-adnoddau a systemau a gaffaelwyd gan e-Lyfrgell GIG Cymru. O'r un deg naw (19) o dargedau, cyflawnwyd dau (10). O'r naw (9) na chawsant eu cyflawni, roedd pump (5) oherwydd nad oedd y defnydd o adnoddau wedi cynyddu yn unol â'r disgwyliadau, ac roedd pedwar (4) oherwydd newidiadau cytundebol yn cynyddu mewn gwerth neu benderfyniadau technegol strategol ynghylch dilysu. Ar ôl adolygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2024-25, bydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2025-26 yn cael eu gosod a'u hadrodd yn chwarterol fel rhan o adroddiad perfformiad mewnol IGDC.

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Targed Cost fesul Defnydd	Sylwebaeth	Targed Defnydd	Sylwebaeth
Yn unol â'r polisi datblygu casgliadau, adolygwyd 100% o'r e-adnoddau yr oedd eu contractau i fod i gael eu hymestyn neu eu hail-gaffael	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Wedi'i gyflawni 	
Gostyngodd y gost fesul defnydd o erthyglau e-gyfnodolion a a gyrchwyd 5% gan gynyddu ystadegau defnydd o 34,993 o erthyglau a gyrchwyd	Wedi'i gyflawni 	Gostyngodd y gost fesul defnydd o £3.28 i £2.86	Wedi'i gyflawni 	Gwelwyd cynnydd yn y defnydd o chwe deg chwe mil un cant a naw ar hugain (66,129) o erthyglau a gyrchwyd (8.6%)

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Targed Cost fesul Defnydd	Sylwebaeth	Targed Defnydd	Sylwebaeth
Gostyngodd y gost fesul defnydd o benodau e-Lyfrau a gyrchwyd 1% gan gynyddu'r ystadegau defnydd o 311 o benodau y cafwyd mynediad iddynt	Wedi'i gyflawni 	Gostyngodd y gost fesul defnydd o £2.87 i £1.45 (41.86%)	Wedi'i gyflawni 	Gwelwyd cynnydd yn y defnydd o bedwar mil dau gant a thri ar ddeg (4,213 o benodau a gyrchwyd (16.3%))
Gostyngodd y gost fesul defnydd o chwiliadau cronfeydd data (ac eithrio Gwybodaeth am Feddyginiaethau) 30% gan achosi cynnydd yn yr ystadegau defnydd o 107,800 o chwiliadau	Wedi'i gyflawni 	Gostyngodd y gost fesul defnydd o £1.45 i £0.89 (63.48%)	Wedi'i gyflawni 	Gwelwyd cynnydd yn y defnydd o gant ac wyth deg naw mil pedwar cant ac wyth ar hugain (189,428) o chwiliadau (43.3%)
Gostyngodd y gost fesul defnydd o geisiadau am yr Offeryn Gwybodaeth am Feddyginiaethau a Chyffuriau 10% gan achosi cynnydd yn yr ystadegau defnydd o 2,389 o geisiadau	Heb ei gyflawni 	Gwelwyd cynnydd yn y gost fesul defnydd o £5.00 (43.16%) oherwydd bod y contract newydd ar gyfer gwybodaeth am feddyginiaethau (Medi 2024) yn costio 53% yn fwy na'r datrysiad blaenorol.	Wedi'i gyflawni 	Gwelwyd cynnydd yn y defnydd o bedwar mil pedwar cant wyth deg saith (4,487) o geisiadau (17.4%). Er bod y datrysiad newydd yn ddrytach, mae eisoes wedi dangos cynnydd sylweddol yn ei ddefnydd

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Targed Cost fesul Defnydd	Sylwebaeth	Targed Defnydd	Sylwebaeth
<p>Gostyngodd y gost fesul defnydd o sesiynau crynodeb tystiolaeth, chwiliadau a phynciau a gyrchwyd 2% gan gynyddu'r ystadegau defnydd o 1,531 o sesiynau, 1,072 o chwiliadau a 2,194 o bynciau gyrchwyd</p>	<p>Wedi'i gyflawni'n rhannol</p>	<p>Gostyngodd y gost fesul defnydd ar gyfer pynciau a gyrchwyd £0.10 (6.5%). Mae hyn oherwydd bod BMJ yn gallu adrodd ar y defnydd ar gyfer pob un o'r 1000+ o bynciau o fis Ionawr 2025 o gymharu â dim ond y 100 pwnc uchaf a gyrchwyd tan fis Rhagfyr 2024.</p> <p>Er bod y gost fesul defnydd ar gyfer sesiynau yn dal i fod o fewn ein trothwyon ail-gaffael, mae'r gost fesul defnydd ar gyfer chwiliadau wedi cynyddu 46.4%, sy'n codi'r cwestiwn a yw defnyddwyr yn defnyddio'r swyddogaeth chwilio hon.</p>	<p>Wedi'i gyflawni'n rhannol</p>	<p>Gwelwyd cynnydd o 12% yn nifer y pynciau a gyrchwyd, sy'n cyfateb i ddwy fil ar bymtheg, dau gant a phedwar deg saith (17,247) o bynciau y cafwyd mynediad iddynt. Gwelwyd gostyngiad yn y defnydd o un deg naw mil chwe chant a thri deg wyth (19,638) o sesiynau (32%), ac un ar hugain mil chwe chant a thri deg (21,630) o chwiliadau (74%)</p> <p>Mae hefyd yn werth nodi bod atebion amgen ar gael ar lefel Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Lleol ym mhob sefydliad ond dau (UptoDate neu DynaMed)</p>

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Targed Cost fesul Defnydd	Sylwebaeth	Targed Defnydd	Sylwebaeth
Gwelwyd gostyngiad o ran y gost fesul defnydd y crynodebau tystiolaeth gyda chynnwys testun llawn o 1%, gan gynyddu ystadegau defnydd 638 o eitemau cynnwys a welwyd	Wedi'i gyflawni 	Gostyngodd y gost fesul defnydd o £9.51 i £8.61 (10.45%)	Heb ei gyflawni 	Gwelwyd gostyngiad yn y defnydd o bum mil un cant saith deg un (5,171) o eitemau cynnwys a welwyd (9%). Mae'n debyg bod y gostyngiad i'w weld oherwydd na cheir mynediad bellach i ClinicalKey Nursing, a gafodd ei ganslo ym mis Rhagfyr 2023, ac felly nas defnyddiwyd yn 2024-25.
Gwelwyd gostyngiad o 5% yn y gost fesul defnydd o bynciau canllaw a gyrchwyd gan gynyddu'r ystadegau defnydd 610 o ganllawiau a welwyd	Heb ei gyflawni 	Cynyddodd y gost fesul defnydd o £4.11 i £4.71 (10.45%). I'w nodi, mae cost Canllawiau NEWT wedi'i chynnwys yn y cyfrifiad hwn, er nad yw ystadegau defnydd wedi'u cynnwys gan nad ydynt ar gael gan y cyflenwr.	Heb ei gyflawni 	Gwelwyd gostyngiad yn y defnydd o ddwy fil saith cant pedwar deg pedwar (2,744) o ganllawiau a welwyd (33%), y gellir eu priodoli'n bennaf i Royal Marsden Manual of Nursing Procedures.
Gwelwyd gostyngiad o 1% yn y gost fesul defnydd o fodiwlau e-ddysgu a gwblhawyd gan gynyddu ystadegau defnydd 90 o fodiwlau a gwblhawyd	Heb ei gyflawni 	Cynyddodd y gost fesul defnydd o £6.39 i £7.02 (8.87%)	Heb ei gyflawni 	Gwelwyd gostyngiad yn y defnydd o bum cant a saith ar hugain (527) o fodiwlau wedi'u cwblhau (6.4%)

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Targed Cost fesul Defnydd	Sylwebaeth	Targed Defnydd	Sylwebaeth
Cynnydd blynyddol o 2% mewn cyfrifon OpenAthens (clasurol ac Mewngofnodi Sengl (SSO)) gan arwain at gynnydd o 298 o gyfrifon erbyn mis Mawrth 2025	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Heb ei gyflawni 	Gweler Dilysu ynghylch newid i Entra Ym mis Ionawr 2025, cyn y newid, roedd pymtheg mil a thri deg pump (15,035) o gyfrifon OpenAthens, sef cynnydd o 0.8%.
15% annual increase of active NHS Wales NADEX users registered with OpenAthens Single Sign On resulting in an increase of 1,405 accounts by March 2025.	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Heb ei gyflawni 	Gweler Dilysu ynglŷn â newid i Entra. Ym mis Ionawr 2025, roedd deng mil pump cant naw deg pump (10,595) o gyfrifon SSO, sef cynnydd o fil dau gant tri deg dau (1,232) o gyfrifon (11.6%) yn seiliedig ar fis Mawrth 2024.


Defnydd

Mae'r graffiau a'r sylwadau canlynol yn ehangu ymhellach ar y dangosyddion perfformiad allweddol a adolygwyd uchod gan adrodd ar y defnydd yn ôl y math o adnodd a rhoi manylion am y teitlau a'r llwyfannau/cyhoeddwr a gyrchwyd fwyaf. Yma, rydym wedi nodi meysydd i'w gwella o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo'r adnoddau, integreiddio â systemau clinigol, ymgyrchoedd, digwyddiadau dysgu a hyfforddi.


E-Gyfnodolion

Gyda chynnydd blynyddol o chwe deg chwe mil un cant a naw ar hugain (66,129) o erthyglau a gyrchwyd, mae cyhoeddwr gan gynnwys Cymdeithas Oncoleg Glinigol America, Elsevier, Journal of the American Medical Association, Nature, Gwasg Prifysgol Rhydychen, a Springer wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu defnydd.

Y defnydd o e-gyfnodolion yn ôl cyhoeddwr	2023-24	2024-25
American Academy of Pediatrics	2,129	2,065
American College of Physicians	267	234
American Diabetes Association	2,163	2,217
American Psychiatric Association	2,106	1,693
American Society of Clinical Oncology	5,379	6,240
British Medical Journal (all titles)	91,468	74,733
Bristol University Press/Policy Press	184	104
Cochrane Library Database	7,352	5,433
Cambridge University Press	10,497	8,103
Duke University Press	22	8
EBSCO Platform	4,017	3,612



Y defnydd o e-gyfnodolion yn ôl cyhoeddwr	2023-24	2024-25
Elsevier - ClinicalKey Platform	44,705	41,790
Elsevier - ClinicalKey Nursing Platform	2,417	-
Elsevier - Science Direct Platform	81,024	104,819
Emerald	3,780	3,687
Journal of the American Medical Association (all titles)	8,876	11,811
Mark Allen	14,501	12,350
Nature	40,094	44,398
New England Journal of Medicine	41,169	35,045
Ovid (LWW and OUP)	42,130	43,341
Oxford University Press (OUP)	60,460	159,595
ProQuest Platform	5,689	4,450
RCNi (Royal College of Nursing Journals)	12,709	13,469
Radiological Society of North America	7,996	7,271
Sage	36,856	35,313
Springer	24,128	28,219
Taylor & Francis	11,361	11,692
Wiley	136,380	104,296



E-Lyfrau


Gwelwyd cynnydd yn y defnydd o e-lyfrau 16.3% yn flynyddol, a gellir priodoli hyn i deitlau a rhifynnau newydd yn cael eu hychwanegu at y casgliad, gan gynnwys [Canllawiau Dibrisio Maudsley](#) ym mis Mawrth 2025.

Ymhlith y testunau â defnydd sylweddol, y mae:

1. [The Renal Drug Handbook: The Ultimate Prescribing Guide for Renal Practitioners](#) (1,799)
2. [Gower Handbook of Internal Communication](#) (158)
3. [Essentials of Anatomy and Physiology](#) (81)
4. [Basic science for the MRCS: a revision guide for surgical trainees](#) (54)
5. [Rook's Textbook of Dermatology](#) (52)

Y defnydd o e-lyfrau yn ôl plattform

	2023-24	2024-25
Browns	1,013	2,600
EBSCO	676	1,113
Cambridge University Press (STAHL Online)	2,262	1,979
Elsevier - ClinicalKey	14,494	16,964
Elsevier - ClinicalKey Nursing	730	-
ProQuest	668	1,195
Wiley (Maudsley Prescribing and Deprescribing - March 2025)	1,683	1,921
Wolters Kluwer	84	65



Cronfeydd Data / Cronfeydd Data Dyfyniadau

Cynyddodd nifer y chwiliadau yn flynyddol 43.3% gyda chynnydd sylweddol ar draws MEDLINE, EMBASE, Trip Pro, a CINAHL Plus with Full Text (Nursing and Allied Health).

Gwelodd MEDLINE gynnydd o dri deg wyth mil dau gant a phum deg chwech (38,256) o chwiliadau, ac er ei fod yn drawiadol at ddibenion adrodd, mae'n bwysig nodi bod MEDLINE ar gael i GIG Cymru heb unrhyw gost ychwanegol oherwydd tanysgrifiadau presennol i gronfeydd data eraill sydd ar gael trwy'r cyflenwr. O ganlyniad, gellid dadlau y gallai cynnwys y data hwn tra nad oes unrhyw effaith ar y gost flynyddol fod yn chwyddo'r defnydd yn annheg.

Wrth symud ymlaen, bydd yr e-Lyfrgell yn adrodd ar ddefnydd gan gynnwys ac heb gynnwys MEDLINE, tra bydd ar gael am ddim, mae'n dal i fod yn offeryn hanfodol a ddefnyddir ar gyfer chwilio am lenyddiaeth a'r broses adolygu systematig. Hebdo, ni fyddai gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn gallu dod â chynnwys i'r amlwg mewn ffordd ystyrlon ac ni fyddai gweithwyr llyfrgell a gwybodaeth proffesiynol yn gallu cyflawni ceisiadau chwilio am lenyddiaeth na chefnogi adolygiadau systematig.

Y defnydd o gronfeydd data yn ôl cronfa ddata	2023-24	2024-25	2024-26
CINAHL Plus with Full Text	19,923	21,380	1,457
British Nursing Index	279	1,018	739
British Nursing Database	2,235	3,114	879
HealthCare Administration Database	1,396	1,563	167
Sociology Collection	1,591	1,374	-217
Applied Social Sciences Index and Abstracts	811	552	-259
Social Services Abstracts	135	6	-129
Sociological Abstracts	103	0	-103
Sociology Database	124	3	-121
Cochrane Library Database	3,796	2,868	-928
Allied and Complementary Medicine	11,244	7,392	-3,852
EMBASE	90,511	99,103	8,592
Health Management Information Consortium	9,926	11,791	1,865
MEDLINE	186,980	225,236	38,256
PsycINFO	29,144	29,480	336
Maternity and Infant Care Database	7,268	4,888	-2,380
Scopus	8,997	7,663	-1,334
Social Policy and Practice	8,193	6,570	-1,623
Trip Pro	2,539	5,285	2,746


Crynodebau Tystiolaeth / Offer Cefnogi Penderfyniadau Clinigol

Mae'r defnydd o grynodedbau tystiolaeth / offer cefnogi penderfyniadau clinigol wedi cynyddu 12.3% ar gyfer BMJ Best Practice, gan ragori ar y targed o 2%.

Fel y nodwyd uchod, mae hyn oherwydd bod BMJ yn gallu adrodd ar ddefnydd ar gyfer pob un o'r 1000+ o bynciau yn yr offeryn o fis Ionawr 2025. Ar gyfer ClinicalKey, mae'r defnydd wedi gostwng 9.1%. Sylwch: Cafodd Nyrsio ClinicalKey ei ganslo ym mis Rhagfyr 2023. Ail-gaffaelwyd y ddau offeryn ym mis Ionawr 2025 am ddwy (2) flynedd gyda'r opsiwn i ymestyn hynny am dymor ychwanegol o flwyddyn.

Ystyriaeth allweddol wrth adolygu defnydd yw nodi offer a gaffaelir yn lleol gan gynnwys UpToDate a DynaMed sydd ar gael mewn saith (7) o'r deg (10) Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd yn GIG Cymru. Mae'n debygol bod y defnydd yn cael ei gyfeirio trwy'r tanysgrifiadau hynny yn unig neu yn wir yn ychwanegol at yr hyn sydd ar gael yn genedlaethol.

Crynodebau Tystiolaeth yn ôl cynnyrch (cynnwys a gyrchwyd)	2023-24	2024-25
BMJ Best Practice	123,416	140,663
ClinicalKey	58,659	56,473
ClinicalKey Nursing	3,220	



Un ffactor i'w ystyried wrth adolygu'r defnydd o'r offer hyn yw'r cynnydd yn y defnydd o Offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Canfu arolwg BMJ yn 2024 o feddygon teulu yn y DU fod un (1) o bob pump (5) yn defnyddio offer Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (Gen-AI) fel ChatGPT mewn ymarfer clinigol, gan gynnwys ar gyfer diagnosisu gwahaniaethol (Blease et al, 2024). Er bod rhai offer Gen-AI sydd ar gael ar draws GIG Cymru, nid yw'n ymddangos bod cysondeb, er enghraifft gyda ChatGPT wedi'i rwystro mewn rhai Byrddau Iechyd ac ar gael mewn eraill.

Un o achosion pryder ynghylch offer Gen-AI agored yw dibynadwyedd yr wybodaeth a gynhyrhir wrth ystyried rhagfarnau posibl, tryloywder, preifatrwydd data a diogelwch.



Mewn cymhariaeth ddiweddar, ar raddfa fach, o ddau (2) offeryn Gen-AI a BMJ Best Practice wrth ofyn cwestiynau clinigol, canfuwyd bod y ddau (2) offeryn Gen-AI a brofwyd wedi rhoi 'atebion a oedd yn swnio'n gredadwy oedd yn aml yn brin o'r dyfnder a'r sail dystiolaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol' (Middleton a Walsh, 2025). Mae bod yn seiliedig ar dystiolaeth wrth wraidd y crynodebau dystiolaeth a ddarperir yn genedlaethol gan e-Lyfrgell GIG Cymru. Caiff pynciau eu diweddarau'n rheolaidd yn unol â'r canllawiau diweddaraf; mae gwylidwriaeth dystiolaeth barhaus gan gynnwys gwylidwriaeth cyffuriau a fydd yn cynnwys ffynonellau sydd ar gau i offer Gen-AI agored (e.e. papurau ymchwil nad ydynt yn rhai Mynediad Agored).

Mae'n hanfodol, er mwyn cefnogi gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i gyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf, fod e-Lyfrgell GIG Cymru a'i phartneriaid yn hyrwyddo'r crynodebau dystiolaeth fel y ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer gwybodaeth glinigol sy'n ymwneud â diagnosis, rheolaeth, dilyniant a chanllawiau/tystiolaeth gefnogol, wrth hefyd yn archwilio cyfleoedd i weithredu hyfforddiant sgiliau llythrennedd AI.

Bydd yr e-Lyfrgell yn ymrwmo i gefnogi defnyddwyr terfynol i ddefnyddio'r offer i gefnogi gofal cleifion uniongyrchol ac addysgu defnyddwyr ar bwysigrwydd defnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ogystal, bydd tîm y Llyfrgell electronig yn ceisio hyrwyddo manteision ychwanegol y ddau offeryn o fewn IGDC megis integreiddio â Chofnodion Iechyd Electronig.


Gwybodaeth Am Feddyginiaethau

Ers mis Medi 2024, mae defnyddwyr awdurdodedig e-Lyfrgell GIG Cymru wedi cael mynediad at MedicinesComplete gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Mae'r tanysgrifiad yn cynnwys **mynediad i dri ar hugain (23) o fodiwlau** gan gynnwys Martindale: The Complete Drug Reference, Palliative Care Formulary, Psychotropic Drug Directory ac amrywiaeth o wirwyr rhyngweithio, sydd i gyd wedi dangos defnydd rhagorol o hyd at dri chant a mwy (300+) o drawiadau yn y saith (7) mis cyntaf.


Yn seiliedig ar yr un misoedd yn y flwyddyn flaenorol, mae'r defnydd cyffredinol wedi cynyddu hyd at 253% ac mae'r defnydd o'r naill fis i'r llall i'w weld yn gadarnhaol. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd sylweddol mewn costau, mae'r e-Lyfrgell wedi gweld cynnydd yn y gost fesul defnydd, ac i gefnogi GIG Cymru, mae'r cyflenwr wedi ymrwmo i gynhyrchu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o'r datrysiad gan gyrraedd ein trothwyon dymunol erbyn diwedd tymor cychwynol y contract ym mis Awst 2027.

Crynodebau Tystiolaeth yn ôl cynnyrch (cynnwys a gyrchwyd)

	2023-24	2024-25
MicroMedex (tan fis Awst 2024)	21,306	4,695
MedicinesComplete (o fis Medi 2024)	-	21,098



MedicinesComplete, defnydd yn ôl modiwl	Medi 2024 – Mawrth 25
AHFS Drug Information	1,190
ASHP Injectable Drug Information	252
BNF	1,577
BNF for Children	81
Clarke's Analysis of Drugs and Poisons	110
Critical Illness	933
Dale and Appelbe's Pharmacy and Medicines Law	48
Dietary Supplements	383
Drug Administration via Enteral Feeding Tubes	1,649
Drug Monitoring Checker	246
Drugs in Pregnancy and Lactation	1,756
Extended Stability for Parenteral Drugs	56
Herbal Medicines	680
Injectable Drugs Guide	278
Martindale: The Complete Drug Reference	3,386
Palliative Care Formulary	2,668
Pediatric Injectable Drugs	99
Pharmaceutical Excipients	230
Psychotropic Drug Directory	2,132
Stockley's Drug Interactions	2,686
Stockley's Herbal Medicines Interactions	664
The MHRA Green Guide	42
The MHRA Orange Guide	16




Canllawiau

Mae'r defnydd o ganllawiau wedi lleihau ar draws yr holl adnoddau sydd ar gael a gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y defnydd o Royal Marsden Manual of Clinical and Cancer Nursing Procedures Online. Mae canllawiau'r Royal Marsden yn darparu sgiliau a gweithdrefnau clinigol cyfoes, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n gysylltiedig ag agweddau hanfodol ar ofal unigolyn, a gellir dadlau mai dyma'r canllaw 'safon aur' ar gyfer gofal nyrsio. Mae'n anffodus, felly, bod y defnydd o'r adnodd gwerthfawr hwn wedi gostwng 46%. Mae'r adnodd i'w ail-gaffael yn 2025-26 (diwedd y contract ym mis Chwefror 2026), ac felly bydd yr e-Lyfrgell yn casglu adborth gan ddefnyddwyr terfynol trwy arolygon ansoddol ac arweinwyr nyrsio ar draws Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig ac o fewn Swyddfa Prif Swyddog Nyrsio Cymru a Chyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru. Bydd hyn i gyd, ynghyd â'r defnydd, yn pennu a gaiff yr adnodd ei ail-gaffael. Mae'r cyflenwr, Wiley, hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda thîm y Llyfrgell electronig i hyrwyddo'r adnodd gan gynnwys cynnig gweminarau a thiworialau ynghylch sut y gellir ei ddefnyddio'n ymarferol ac i gefnogi ailddilysu. Mae cyfleoedd hefyd i integreiddio'r canllawiau â systemau clinigol i gefnogi defnyddwyr i gyrchu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr adeg y mae ei hangen arnynt.

Canllawiau yn ôl cynnyrch (cynnwys a gyrchwyd)

	2023-24	2024-25
Royal Marsden Manual of Clinical and Cancer Nursing Procedures	6,069	4,162
iRefer	5,109	4,272
NEWT (ddim yn gallu darparu data)	-	-




Mae iRefer yn offeryn canllawiau ymchwiliadau radiolegol gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr (RCR). Mae'n cefnogi meddygon teulu, radiograffwyr, clinigwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n atgyfeirio i benderfynu ar yr ymchwiliad(au) neu'r ymyrraeth ddelweddu fwyaf priodol ar gyfer cleifion. Hyd at fis Mawrth 2025, dim ond drwy ddyfeisiau rhwydweithiol GIG Cymru (dilysu Protocol Rhyngwyrdd (IP)) yr oedd iRefer ar gael, ac nid drwy OpenAthens, a fu'n cyfyngu ar nifer y defnyddwyr a allai ddefnyddio'r adnodd, yn enwedig meddygon teulu. Er bod RCR wedi darparu ateb dros dro i ddarparu cyfrifon personol i feddygon teulu, y meddyg teulu unigol oedd yn gyfrifol am gysylltu â'r e-Lyfrgell i gael mynediad. Nawr, gyda mynediad OpenAthens ar waith ar gyfer yr adnodd, bydd gan bob un o ddefnyddwyr awdurdodedig e-Lyfrgell GIG Cymru fynediad ar unwaith heb unrhyw ymyrraeth gan dîm yr e-Lyfrgell. Edrychwn ymlaen at adolygu'r defnydd yn y dyfodol i nodi a yw't gwaith o weithredu prosesau dilysu OpenAthens wedi cael effaith gadarnhaol.

E-Ddysgu

Er y gwelwyd gostyngiad bach yn nifer y modiwlau a gwblhawyd (pum cant a saith ar hugain (527)), gwelwyd cynnydd o bum cant a naw deg (590) yn nifer y defnyddwyr, ac mae hyn yn dangos bod mwy o ddefnyddwyr yn darganfod ac yn creu cyfrifon i gefnogi eu datblygiad meddygol/proffesiynol parhaus. Ail-gaffaelwyd BMJ Learning ym mis Hydref 2024 gyda'r tymor cychwynnol yn dod i ben ym mis Medi 2026; bydd y tîm yn parhau i hyrwyddo'r adnodd fel rhan o'i ymgyrchoedd presennol.

BMJ Learning	2023-24	2024-25
Modiwlau wedi'u cwblhau	8,750	8,223
Nifer y defnyddwyr (erbyn mis Mawrth)	20,420	21,010



Dilysu

Symudodd system Mewngofnodi Sengl (SSO) e-Lyfrgell GIG Cymru o Microsoft Active Directory Federation Services (ADFS) i Microsoft Entra ym mis Chwefror 2025; gwnaeth hyn wella'r broses fewngofnodi ar gyfer defnyddwyr GIG Cymru i gryfhau seiberddiogelwch, trwy ddefnyddio dilysu aml-ffactor (MFA). I ddefnyddwyr GIG Cymru sydd â chyfeiriad e-bost GIG Cymru, mae'r newid hwn wedi darparu taith defnyddiwr sy'n debyg i ddilysu Internet Protocol (IP), sef mynediad ar unwaith heb orfod 'mewngofnodi'. Mae hyn oherwydd y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr GIG Cymru wedi dilysu cyn ceisio cyrchu e-adnodd naill ai drwy ddefnyddio eu dyfais GIG Cymru sydd wedi'i rhwydweithio neu drwy ddefnyddio Porwr Microsoft Edge. O ganlyniad i'r newid, aeth pob cyfrif Mewngofnodi Sengl (SSO) a grëwyd trwy Entra cyn mis Chwefror 2025 yn ddarfodedig a chawsant eu dileu o'r system i wneud lle i SSO Entra newydd fel y dangosir gan y gostyngiad o ddeg mil pump cant naw deg pump (10,595) o gyfrifon ddiwedd mis Ionawr 2025 i ddwy fil naw deg pump (2,095) erbyn diwedd mis Chwefror 2025. Fodd bynnag, mae'n braf gweld pa mor gyflym y mae cyfrifon SSO newydd yn cael eu creu, ac mae'r e-Lyfrgell yn rhagweld y bydd cyfrifon yn cynyddu i niferoedd tebyg i'r hyn a welwyd ym mis Ionawr 2025 erbyn mis Rhagfyr 2025 (cynnydd cyfartalog o 20% bob mis).

Ar gyfer cyfrifon OpenAthens Clasurrol, a ddefnyddir gan ddefnyddwyr awdurdodedig nad oes ganddynt gyfeiriadau e-bost GIG Cymru fel Gofal Cymdeithasol, adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff iechyd a gofal cymdeithasol a ariennir neu a noddir neu sefydliadau allanol sydd wedi'u contractio â GIG Cymru ac ati, mae nifer y cyfrifon wedi gostwng o 57.6% o gymharu Mawrth 2024 a Mawrth 2025.

Fodd bynnag, gellir priodoli hyn i gyfrifon sy'n dod i ben yn naturiol (dim ond am ddwy (2) flynedd y mae cyfrifon yn weithredol i gefnogi'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a chynnal a chadw cyfrifon parhaus a wneir gan weinyddwyr OpenAthens Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol i symud defnyddwyr GIG Cymru a nodwyd drosodd i ddefnyddio SSO a dileu cyfrifon dyblyg.

Fel y nodwyd yn fyr, defnyddiodd e-Lyfrgell GIG Cymru ddilysiad OpenAthens ochr yn ochr â dilysiad IP, sy'n golygu nad yw nifer y defnyddwyr a nodwyd yma yn gydberthynas uniongyrchol â nifer y defnyddwyr awdurdodedig gweithredol. Bydd nifer fawr o ddefnyddwyr yn defnyddio e-Lyfrgell GIG Cymru heb fewngofnodi i system ddilysu neu yn wir heb fynd i wefan yr e-Lyfrgell neu Library Search (catalog) GIG Cymru gan y byddant yn cael mynediad trwy fynd yn uniongyrchol i adnodd pan fyddant arun o wefannau GIG Cymru. Wrth i ddilysu IP ddod yn fwyfwy anodd i'w reoli, mae'r e-Lyfrgell wedi ymrwymo fel rhan o strategaeth 2025-28 i gynnal adolygiad strategol o'r ddwy (2) system ddilysu i ganfod a fydd cyfle i symud i ffwrdd o ddilysu IP yn y dyfodol.

OpenAthens	Cyfrifon SSO	Cyfrifon Clasurol (hunan-gofrestru)
Ebrill-23	7,380	6,307
Mai-23	7,576	6,296
Meh-23	7,773	6,303
Gorff-23	7,934	6,325
Awst-23	8,222	6,333
Medi-23	8,588	6,303
Hyd-23	8,735	6,356
Tach-23	8,876	6,365
Rhag-23	9,017	6,316
Ion-24	9,154	6,185
Chwe-24	9,265	5,693
Maw- 24	9,363	5,546
Ebrill-24	9,469	5,080
Mai-24	9,523	5,000
Meh-24	9,541	4,853
Gorff-24	9,579	4,672
Awst-24	9,687	4,474
Medi-24	9,819	4,394
Hyd-24	10,088	4,378
Tach-24	10,310	4,415
Rhag-24	10,451	4,424
Ion-25	10,595	4,440
Chwe-25	2,095	3,505
Maw-25	3,390	3,520

Meincnodi

Yn chwarter tri (3), meincnododd tîm yr e-Lyfrgell ei gwasanaeth llyfrgell ddigidol cenedlaethol â gwledydd eraill y GIG o ran y cynnig gwasanaeth, yr adnoddau sydd ar gael a'r gyllideb i ganfod sefyllfa Cymru o ran y meysydd allweddol hyn. Cefnogodd yr ymarfer hwn y gwaith o ddatblygu papur yn nodi bod e-Lyfrgell GIG Cymru yn darparu mynediad cenedlaethol at gynnwys unigryw gyda'r gyllideb gyffredinol fwyaf ond un ar gyfer gwasanaeth llyfrgell ddigidol cenedlaethol ar ôl GIG Lloegr.

Dangosodd yr ymarfer gyfleoedd i wario i gynyddu'r defnydd a'r welededd trwy weithredu teclyn cysylltu llyfrgelloedd sy'n cefnogi defnyddwyr i gyrchu e-adnoddau o amrywiaeth o bwyntiau mynediad gan gynyddu'r defnydd, lleihau'r gost fesul defnydd a lleihau nifer yr 'ataliadau' oherwydd nad yw defnyddwyr wedi'u dilysu neu nad ydynt yn cyrchu'r cynnwys sydd ei angen trwy'r platfformau y mae'r e-Lyfrgell yn tanysgrifio iddynt. Rhagwelir y bydd y cynnydd disgwylidig fesul defnydd yn gwella'r gost fesul defnydd gymaint ar draws holl adnoddau'r e-Lyfrgell, ac y caiff swm sy'n fwy na chost teclyn cysylltu llyfrgelloedd ei adennill o ganlyniad i'r gwerth am arian ychwanegol a gyflawnir ar gontractau cenedlaethol.

O ganlyniad, mae tîm yr e-Lyfrgell yn anelu at gaffael offeryn o'r fath yn 2025-26. Yn olaf, trwy adolygiad llenyddiaeth a oedd yn nodi papurau ac astudiaethau cyhoeddedig ar effaith a chost-budd gwasanaethau llyfrgell, nododd yr ymarfer meincnodi ofyniad i tîm yr e-Lyfrgell ddatblygu methodoleg 'enillion ar fuddsoddiad' ar gyfer y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, a bydd yn cael ei datblygu yn 2025-26.

Hyrwyddo

Aeth e-Lyfrgell GIG Cymru ati i gasglu adborth ansoddol gan ddefnyddwyr terfynol yn 2024-25 i helpu i ddangos yr effaith go iawn y mae'r e-adnoddau cenedlaethol yn ei chael ar ddatblygu a chynnal gwybodaeth wrth hefyd yn gwella diogelwch a gofal cleifion. Y defnyddiwr sydd wrth wraidd y gwasanaeth e-Lyfrgell ac rydym yn ymdrechu i'w cynnwys ym mhob elfen o'r gwaith o ddatblygu casgliadau a ddangosir yn yr ymgyrchoedd a gyflwynir a'r gynrychiolaeth ar grwpiau tasg a gorffen caffael.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) canlynol yn ymwneud â gweithgarwch ymgysylltu'r e-Lyfrgell a'r targedau ar gyfer e-adnoddau a systemau a gaffaelwyd. O'r wyth (8) Dangosydd Perfformiad Allweddol, cyflawnwyd pedwar (4). O'r pedwar (4) na chawsant eu cyflawni, cynhyrchodd un (1) gynnydd ond nid yn unol â'r targed rhagamcanedig, mae un (1) yn ymwneud ag **ymgysylltu â'r Cyfryngau Cymdeithasol sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd** ac mae dau (2) yn ymwneud â nifer yr ymwelwyr gwefan newydd a'r rhai sy'n dychwelyd, sydd wedi gostwng, ond gallai hyn fod am amrywiaeth o resymau gan gynnwys defnyddio adnoddau trwy ryngwynebau brodorol a rhoi nodau tudalen ar adnoddau yn hytrach na dod i wefan yr e-Lyfrgell.

KPI

Mae 100% o'r holl Grwpiau Tasg a Gorffen a phaneli gwerthuso tendrau cystadleuol wedi bodloni'r cworwm yn ôl proses gaffael yr e-Lyfrgell.

Wedi'i gyflawni.



Sylwebaeth

Cynhaliwyd dau (2) dendr cystadleuol yn 2024-25. Roedd un deg naw (19) o gynrychiolwyr ar y grŵp gorchwyl a gorffen ac roedd un ar ddeg (11) o gynrychiolwyr ar y panel gwerthuso ar gyfer Gwybodaeth am Feddyginiaethau. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogwyr o fferylliaeth, gwybodaeth am feddyginiaethau, nyrsio a gofal eilaidd ar draws GIG Cymru. Roedd pedwar ar ddeg (14) o gynrychiolwyr ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac wyth (8) o gynrychiolwyr ar y panel gwerthuso ar gyfer e-Gyfnodolion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr proffesiynol llyfrgell a gwybodaeth o Wasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

KPI

Roedd 100% o weithgarwch caffael yn cynnwys grŵp tasg a gorffen caffael gyda chynrychiolaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr pwnc.

Wedi'i gyflawni.

**Sylwebaeth**

Roedd pob un o'r deg (10) gweithgaredd caffael yn cynnwys grŵp gorchwyl a gorffen i gefnogi'r gwaith o ddrafftio gofynion Gwahoddiad i Dendro (ITT) gan sicrhau dull cyfannol GIG Cymru o gaffael cenedlaethol.

KPI

Cynnydd o 30% yn nifer y rhai sy'n rhan o restr bostio'r e-Lyfrgell y mae pobl yn dewis bod yn rhan ohoni.

Heb ei gyflawni.

**Sylwebaeth**

Cynnydd gwirioneddol o 20.8% (un ar hugain (21) o bobl).

KPI

100% o'r holl ymatebion i'r arolwg ansoddol wedi'u hadolygu yn unol ag amserlenni caffael.

Wedi'i gyflawni.

**Sylwebaeth**

Daeth hanner cant (50) o ymatebion i arolygon ansoddol i law, sef cynnydd o 60% o gymharu â 2023-24.

KPI

Cynnydd o 10% yn nifer yr Hyrwyddwyr e-Lyfrgell.

Wedi'i gyflawni.

**Sylwebaeth**

Cynnydd gwirioneddol o 42.3% gydag un ar ddeg (11) o hyrwyddwyr newydd yn cofrestru.

KPI

Cynnydd o 5% yn nifer yr ymwelwyr newydd â'r wefan.

Heb ei gyflawni.

**Sylwebaeth**

Gostyngiad gwirioneddol o 208.9% y gellid ei briodoli i ddefnyddwyr terfynol yn mynd yn uniongyrchol at yr adnoddau digidol sydd ar gael trwy chwilio mewn porwyr gwe. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y defnyddwyr gwefan newydd yn cydberthyn â gostyngiad yn y defnydd o adnoddau y gellir cael mynediad iddynt yn uniongyrchol trwy wefan yr e-Lyfrgell (offer cymorth penderfyniadau clinigol, e-Ddysgu, canllawiau), felly gallai adolygiad o'r tudalennau gwe hyn, ac o bosibl profion defnyddwyr, fod o fudd i sicrhau eu bod yn ganfyddadwy. Gellir dadlau y byddai mwy o ymgysylltiad a hyrwyddo'r e-Lyfrgell yn cefnogi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr newydd â'r wefan, sy'n cael ei ystyried ym mhob blwyddyn o'r strategaeth tair blynedd newydd.



KPI

Cynnydd o 5% yn nifer yr ymwelwyr gwefan sy'n dychwelyd.

Heb ei gyflawni.

**Sylwebaeth**

Gostyngiad gwirioneddol o 14.4% (chwe chant a phedwar deg wyth (648) o ymweliadau) a allai fod oherwydd bod defnyddwyr yn defnyddio adnoddau rhoi nodau tudalen, yn chwilio mewn porwyr gwe neu'n llywio i adnoddau trwy wefan eu gwasanaeth llyfrgell/tudalennau SharePoint.

KPI

Cynnydd o 10% mewn ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol.

Heb ei gyflawni.

**Sylwebaeth**

Caeodd yr e-Lyfrgell ei chyfrif X (a elwid gynt yn Twitter) ym mis Medi 2024. O ganlyniad, yn 2024-25, roedd yr e-Lyfrgell yn bresennol ar ddau (2) blatfform cyfryngau cymdeithasol, Instagram a LinkedIn. Megis dechrau yr oedd y ddau blatfform o hyd, a dyna pam y gwelwyd y dirywiad sylweddol mewn gweithgarwch ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol (sef dau ddeg tri mil naw cant a phedwar ar hugain (23,924) o ryngweithiadau). Gweler [Cyfryngau Cymdeithasol](#) i gael mwy o wybodaeth am y ffordd ymlaen ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol.

Ymgyrchoedd


Pan fydd y casgliad yn newid oherwydd ail-gaffael adnoddau newydd neu newidiadau yn y ffordd y cânt eu cyrchu a phan fydd ein gwasanaethau ein hunain yn addasu, creir cynlluniau gwaith ac ymgyrchoedd pwrpasol i gefnogi gwaith hyrwyddo a gwelededd. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn aml yn cynnwys eitemau newyddion, datblygu tudalennau gwe a/neu arolygon ansoddol.

Mae arolygon ansoddol yr e-Lyfrgell yn allweddol wrth nodi ffyrdd y mae'r e-adnoddau wedi cael effaith ar weithwyr iechyd a gofal proffesiynol a thrwy hynny, eu cleifion. Mae eu hadborth yn cefnogi ail-gaffael, datblygu a hyrwyddo adnoddau a gwasanaethau sy'n llywio ein hymgyrchoedd. Yn 2024-25, cafodd yr e-Lyfrgell hanner cant (50) o ymatebion i'r arolygon a oedd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio'n ymarferol.

Cronfeydd Data

Roedd ymgyrch i godi gwelededd cronfeydd data a gaffaelwyd gan yr e-Lyfrgell yn cynnwys ailgynllunio [tudalennau gwe'r cronfeydd data](#) i sicrhau bod cynnwys a gaffaelwyd yn cael ei restru yn gyntaf a bod disgrifiadau'n briodol i lais yr e-Lyfrgell. Crëwyd manylion ynghylch y gwahanol fathau o gronfeydd data sydd ar gael i ddefnyddwyr terfynol i'w cynorthwyo i nodi pa rai fyddai'n diwallu eu hanghenion o ran chwilio am wybodaeth.

Fel rhan o'r ymgyrch, hyrwyddwyd arolygon ansoddol ar gyfer Cronfa Ddata Dyfyniadau Scopus a Chronfa Ddata Llyfrgell Cochrane. Cefnogodd y ddau arolwg benderfyniadau masnachol ynghylch ail-gaffael ac ymestyn contractau a chanfuwyd bod y ddau adnodd wedi cael effaith ar bolisi iechyd a gofal ehangach neu ddatblygiad gwasanaethau. Er enghraifft, i 'lywio trafodaethau gyda Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Plant Gogledd Cymru ynghylch cydweithio i wella'r cymorth sydd ar gael ar draws y rhanbarth', 'sut i wneud defnydd gwell a diogel o...hybiau llawfeddygol yng Nghymru', a 'dod o hyd i dystiolaeth ar...hunan-brofi am HIV, y gyfrannodd y dystiolaeth ohoni at negeseuon yr ymgyrch ar gyfer wythnos profi am HIV yng Nghymru.' Yma, gallwn weld yr effaith go iawn y mae cael mynediad i gronfeydd data wedi'i chael - gan gefnogi'r broses adolygu systematig sy'n sail i waith polisi, adolygu ac ymgyrchu ar draws GIG Cymru.



E-Gyfnodolion (Nyrsio)

Ar ôl i ClinicalKey Nursing gael ei ganslo, cafodd pedwar ar ddeg (14) o deitlau nyrsio allweddol a oedd â defnydd uchel ar y platfform ac ataliadau uchel ar blatfform Elsevier ScienceDirect eu caffael fel rhan o'r tendr e-Gyfnodolion. Lanswyd [eitem newyddion](#) ac ymgyrch fach i sicrhau bod ein cynulleidfaoedd, yn enwedig y gymuned nyrsio, bydwreigiaeth a a phroffesiynau perthynol i iechyd, yn ymwybodol o'r ffordd newydd o gyrchu'r teitlau hyn.



Yn dilyn y newid o Blatfform ClinicalKey Nursing i Science Direct, mae'r defnydd o'r teitlau hyn wedi cynyddu 61.5% ar gyfartaledd.

Crynodebau Tystiolaeth

Wrth adolygu ystadegau defnydd bob chwarter, nododd tîm yr e-Lyfrgell ostyngiad yn y defnydd, ac anogodd adborth trwy'r arolwg ansoddol i nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym sut maent wedi defnyddio ClinicalKey i ddangos tystiolaeth o'r defnydd o 'opioidau llai systemig' yn ystod beichiogrwydd i 'leihau'r risg o dynnu'n ôl [i'r] babi', a sut mae defnyddio'r offeryn cydafiacheddau yn BMJ Best Practice 'yn cynyddu'r... ddealltwriaeth o drin gwahanol gydafiacheddau, yn enwedig yn yr Uned Gofal Dwys a phan gaiff rhywun ei galw i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys...'; un enghraifft o'r fath oedd 'gwirio Monitro Glwcos yn y Gwaed yn rheolaidd os cânt eu nodi oherwydd cydafiachedd/defnyddio steroidau...mae manylion fel hyn yn hawdd eu colli pan fydd rhywun yn brysur'.

Dywedodd yr ymatebwyr wrthym hefyd fod y crynodebau tystiolaeth yn gofyn am 'ystod ehangach o bynciau' a defnyddio 'iaith glir' i gynorthwyo'r defnydd ohonynt, a chafodd y ddau ohonynt eu hadrodd yn ôl i gyflenwyr i'w hystyried.

Canllawiau

Mae NEWT Guidelines yn adnodd ar gyfer fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n darparu neu'n rhoi meddyginiaethau i gleifion ag anawsterau llyncu. Gan nad oes data defnydd ar gael, arweiniodd yr e-Lyfrgell ymgyrch yn chwarter dau (2) i annog defnyddwyr terfynol i roi adborth ansoddol ar eu defnydd o'r offeryn.



Mae adborth wedi dangos bod cael mynediad cenedlaethol i NEWT Guidelines wedi arbed amser gan fod Fferyllwyr Gwybodaeth am Feddyginiaethau wedi gallu rhoi gwybod i feddygon teulu am eu mynediad at 'ganllawiau MyNEWT yn hytrach na gorfod e-bostio ffeiliau PDF perthnasol draw, sy'n golygu y gallant roi gwybodaeth i'r claf/gofalwr yn uniongyrchol yn ystod eu hymgyngoriad yn hytrach na gorfod cysylltu â ni ac aros am e-bost.' Cadarnhaodd fferyllwyr fod NEWT Guidelines wedi lleihau risg neu wedi gwella diogelwch cleifion, gan ganiatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a gwella ansawdd gofal cleifion.

Er enghraifft, cefnogi 'claf(cleifion) strôc sy'n cael trafferth llyncu' a chleifion â 'chanser y pen a'r gwddf gyda thiwb(iau) gastrostomi wedi'u mewnosod yn radiolegol' i dderbyn y feddyginiaeth sydd ei hangen mewn fformiwleiddiad addas, darparu cyngor ar 'falu meddyginiaethau HIV', a 'chelu blas(au) annymunol heb niweidio'r feddyginiaeth.'

Gwybodaeth Am Feddyginiaethau

I gefnogi'r gwaith o ail-gaffael yr Offeryn Gwybodaeth am Feddyginiaethau a Chyffuriau cenedlaethol, crëwyd [tudalen we bwrpasol 'Gwybodaeth am Feddyginiaethau'](#) sy'n tynnu sylw at yr holl adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r rhai sydd angen cyrchu gwybodaeth am feddyginiaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Defnyddiwyd y dudalen we hon, ynghyd ag arolwg ansoddol newydd ei ddatblygu, yn yr ymgyrch a oedd yn cynnwys [datganiadau i'r wasg](#), [eitemau newyddion](#), postïadau ar y cyfryngau cymdeithasol a [sesiynau dysgu a hyfforddi](#) i godi ymwybyddiaeth o'r offeryn newydd ei gaffael.

Hyrwyddwyr E-Lyfrgell GIG Cymru

Yn dilyn ad-drefnu Grŵp Hyrwyddwyr yr e-Lyfrgell, datblygwyd [tudalen we bwrpasol 'Dweud eich dweud'](#) i gefnogi ymgyrch i annog mwy o ddefnyddwyr awdurdodedig i ymwneud ag e-Lyfrgell GIG Cymru. Roedd y dudalen we yn cynghori defnyddwyr ar sut i [wneud argymhelliad e-adnodd neu wasanaeth](#), [dod yn hyrwyddwr](#) a [rhoi adborth trwy'r arolygon ansoddol](#).

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Caeodd yr e-Lyfrgell ei chyfrif X (a elwid gynt yn Twitter) ym mis Medi 2024, gan nad oedd y platfform yn gyson â'n gwerthoedd mwyach; nid dyna oedd y lle cywir ychwaith i ni gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, partneriaid a chymunedau lleol. O ganlyniad, yn 2024-25, ar ôl cau Facebook oherwydd diffyg ymgysylltu ym mis Rhagfyr 2023, roedd yr e-Lyfrgell yn bresennol ar ddau (2) blatfform cyfryngau cymdeithasol, sef Instagram a LinkedIn. Megis dechrau oedd y ddau blatfform o hyd cyn 2024-25, ac felly treuliyd llawer o'r flwyddyn yn nodi pa gymunedau oedd yn ymgysylltu ar ba blatfform, gan gynyddu dilynwyr a phostio'n rheolaidd.

Erbyn mis Mawrth 2025, roedd gan Instagram gant a thri (103) o ddilynwyr gyda mil un cant a saith deg pump (1,175) o argraffiadau ac roedd gan y cyfrif LinkedIn saith deg saith (77) o ddilynwyr, gyda dwy fil chwe chant a dau ar bymtheg (2,617) o argraffiadau. Ym mis Mawrth 2025, creodd tîm yr e-Lyfrgell Gymuned Viva Engage i ymgysylltu â defnyddwyr awdurdodedig GIG Cymru. Heb hyrwyddo na lansio pwrpasol, cyrhaeddodd y dudalen bedwar cant saith deg un (471) o aelodau mewn un (1) mis, gyda newyddion am ddigwyddiadau a marchnata'r e-Lyfrgell sydd ar ddod. Ar gyfer 2025-26, mae'r e-Lyfrgell wedi ymrwmo fel rhan o'i strategaeth 2025-28 i adolygu cynnig Cyfryngau Cymdeithasol e-Lyfrgell GIG Cymru, gan gynhyrchu canllawiau i gefnogi'r defnydd ohonynt fel rhan o ddatblygu strategaeth ymgysylltu.



Stondinau Arddangos A Chyflwyniadau


Aeth tîm yr e-Lyfrgell i bum (5) arddangosfa gyda standin arddangos i hyrwyddo'r gwasanaeth, a chyflwynodd ddeuddeg (12) o gyflwyniadau ar-lein ar gais gan ddefnyddwyr terfynol gan gynnwys grwpiau clinigol, myfyrwyr gradd meistr a sefydliadau sy'n gymwys i ddefnyddio'r e-Lyfrgell trwy eu cyllid neu drwy nawdd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Teitl	Fformat	Dyddiad
Grŵp Cyfathrebu Amgen ac Ychwanegol GIG Cymru	Cyflwyniad Ar-lein	09/04/2024
Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Tîm Gwella	Cyflwyniad Ar-lein	10/04/2024
Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Tîm Trawsnewid y Gweithlu	Cyflwyniad Ar-lein	16/05/2024
Y Rhaglen Cenhadon Newid	Cyflwyniad Ar-lein	13/08/2024
Hyfforddiant Ymgynefino Arbenigol Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cyflwyniad Ar-lein	14/08/2024
Sioe Deithiol Gofal Cymdeithasol Cymru, Niwroamrywiaeth	Standin Arddangos: Llanelli	10/09/2024
Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Tîm y Tŷ Dysgu	Cyflwyniad Ar-lein	12/09/2024
Sioe Deithiol Gofal Cymdeithasol Cymru, Niwroamrywiaeth	Standin Arddangos: Wrecsam	16/10/2024
Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Ymgynefino Hyfforddwyr	Standin Arddangos: Llandrindod	22/10/2024
Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Grŵp Gwaith y Tŷ Dysgu	Cyflwyniad Ar-lein	22/10/2024
Bore Staff Cymorth Llyfrgell a Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru	Cyflwyniad Ar-lein	04/12/2024
QISTmas Addysg a Gwella Iechyd Cymru	Standin Arddangos: Caerdydd	13/12/2024
Cyfarfod Tîm Meddyginiaethau Digidol Iechyd a Gofal Digidol Cymru	Cyflwyniad Ar-lein	15/01/2025
Cyfarfod Tîm Cymunedau Digidol Cymr	Cyflwyniad Ar-lein	21/01/2025
MSc Prifysgol Abertawe - Arwain Trawsnewid Digidol	Cyflwyniad Ar-lein	04/02/2025
Diwrnod Agored Ar-lein Wolters Kluwer, OVID	Cyflwyniad Ar-lein	20/03/2025
Sioe Deithiol Gofal Cymdeithasol Cymru, Diogelu Pontio	Standin Arddangosfa a chyflwyniad: Casnewydd	26/03/2025

Cynhadledd E-Lyfrgell GIG Cymru

Mae tîm yr e-Lyfrgell wedi bod eisiau cynnal cynhadledd gyda'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr terfynol ers tro byd i ddathlu llwyddiannau, trafod meysydd i'w gwella a rhoi cyfle i gyflenwyr gwrdd â'n defnyddwyr wyneb yn wyneb. Ym mis Gorffennaf 2025, bydd hyn yn dod yn realiti pan fydd yr e-Lyfrgell yn cynnal ei chynhadledd gyntaf.

Dechreuodd y broses gynllunio ym mis Tachwedd 2024, a nod y digwyddiad wythnos o hyd, gyda diwrnod cynhadledd hybrid ar 9 Gorffennaf, yw dathlu'r gwaith arloesol a chydweithredol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chynlluniau ar gyfer y deuddeg (12) mis nesaf.



e-lyfrgell GIG Cymru
NHS Wales e-library
IGDC • DHCW

Cynhadledd e-Lyfrgell GIG Cymru
Arloesi & Chydweithio

The NHS Wales e-Library Conference
Innovation & Collaboration

Dydd Mecher / Wednesday
09/07/2025




DIWRNOD CYNHADLEDD HYBRID
HYBRID CONFERENCE DAY



Grymuso

Ar ôl caffael adnoddau cenedlaethol, mae tîm yr e-Lyfrgell yn cydweithio â chyflenwyr a'n cydweithwyr yng ngrŵp hyfforddi Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth GIG Cymru i gyflwyno rhaglen o gyfleoedd dysgu a hyfforddi i gefnogi eu defnydd o'r gwasanaeth. Mae ymgyrch bwrpasol i wella mynediad i weminarau a recordiadau wedi arwain at fwy o fynychwyr mewn sesiynau dan arweiniad cyflenwyr a fideos a wylwyd ar ôl y digwyddiad.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) canlynol yn ymwneud â'r cyfleoedd dysgu ac addysg a ddarperir gan yr e-Lyfrgell a'i phartneriaid ar gyfer yr e-adnoddau a'r systemau a gaffaelwyd. O'r pum (5) Dangosydd Perfformiad Allweddol, cyflawnwyd pedwar (4).


Dangosydd Perfformiad Allweddol	Wedi'i gyflawni	Sylwebaeth
Cynnydd o 10% yn nifer y fideos arddangos gan gyflenwyr a wylwyd.	Ydy 	Cynnydd gwirioneddol o 35.9% (pum cant a saith ar hugain (527) o ymweliadau) oherwydd creu cyfres o fideos i gefnogi'r gymuned gofal cymdeithasol, ac yn eu tro, defnyddwyr awdurdodedig y tu allan i GIG Cymru.
Cydymffurfiaeth 100% ag adroddiad rheoli gwasanaethau lechyd a Gofal Digidol Cymru.	Ydy 	Ymatebwyd i bob galwad ServicePoint a chawsant eu datrys o fewn dangosyddion perfformiad allweddol IGDC (yn ogystal â'r Safonau Lefel Gwasanaeth y mae'r e-Lyfrgell wedi'u gosod i'w hunain).
Cynnydd o 10% yn nifer y cyfranogwyr mewn gweminarau dan arweiniad cyflenwyr.	Ydy 	Cynnydd gwirioneddol o 19.9% (deugain (40) o gyfranogwyr) oherwydd cynnydd mewn cymorth i gyflenwyr, yn enwedig mewn perthynas â'r gyfres 'Cael eich Cyhoeddi' ym mis Chwefror 2025.

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Wedi'i gyflawni	Sylwebaeth
Cynnydd o 10% yn nifer y cyfranogwyr mewn gweminarau dan arweiniad neu gefnogaeth yr e-Lyfrgell.	Nac ydy 	Mae gostyngiad gwirioneddol o 59.5% yn debygol oherwydd bod mwy o gyflenwyr e-Lyfrgelloedd yn cymryd yr awenau o ran darparu dysgu a hyfforddiant ac mae mwy o ddefnyddwyr terfynol yn gwylio recordiadau (gweler y cynnydd o 35.9% yn nifer y sesiynau gwylio i fideos) yn hytrach nag ymuno'n fyw. Hoffai'r e-Lyfrgell archwilio cynnig sesiynau dysgu a hyfforddi byw gyda'r nos neu o bosibl ar benwythnosau i gynyddu mynediad i'r cyfleoedd hyn.
Cynnydd o 5% yn nifer y cyfranogwyr mewn gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid dan arweiniad yr e-Lyfrgell.	Ydy 	Cynnydd gwirioneddol o 30% (un ar ddeg (11) o gyfranogwyr) oherwydd gweithdy 'Defnyddwyr Awdurdodedig' newydd, a sesiynau hyfforddi caffael ychwanegol yn cefnogi'r tendrau lluosog a gyhoeddwyd yn 2024-25.

Dysgu A Hyfforddiant

Roedd un ar bymtheg (16) o weminarau dan arweiniad neu gefnogaeth e-Lyfrgell GIG Cymru (cyfres Dod o Hyd i Wybodaeth dan arweiniad Grŵp Hyfforddi Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth GIG Cymru a oedd wedi'u gweinyddu gan e-Lyfrgell GIG Cymru), un ar hugain (21) o weminarau dan arweiniad cyflenwyr a deg (10) o weithdai ar gyfer rhanddeiliaid.

Mae'r graff canlynol yn manylu faint o bobl a gymerodd ran ym mhob math o weithgaredd dysgu a hyfforddi.



Defnyddwyr Terfynol

Gweminarau dan arweiniad neu gefnogaeth yr e-Lyfrgell	Dyddiad
Dod o hyd i Wybodaeth	13/05/2024
Dod o hyd i Wybodaeth	26/09/2024
Cyhoeddi eich Gwaith	09/10/2024
Dod o hyd i Wybodaeth	10/10/2024
Croeso i'ch e-Lyfrgell: Awgrymiadau a chyngor:	08/10/2024
Beth yw Mynediad Agored?	21/10/2024
Dod o hyd i Wybodaeth	24/10/2024
Dod o hyd i Wybodaeth	28/11/2024
Beth yw Mynediad Agored a pham mae mor bwysig?	03/02/2025
Dewis ble i gyhoeddi	04/02/2025
Cyhoeddi Eich Gwaith, persbectif mewnol: Yr Athro Peter Lepping	06/02/2025
Gofynnwch i'r Llyfrgellydd	11/02/2025
Cyhoeddi Eich Gwaith, persbectif mewnol: Laura Ingham	12/02/2025
Cyhoeddi Eich Gwaith, persbectif mewnol: Madhurima Madhurima	17/02/2025
Cyhoeddi Eich Gwaith, persbectif mewnol: Rachel Gemine	20/02/2025
Cyhoeddi Eich Gwaith, persbectif mewnol: Naveen Madhavan	20/02/2025

Gweminarau dan arweiniad cyflenwyr	Dyddiad
Ffocws ar y Casgliad Cymdeithaseg	11/04/2024
Ffocws ar Stahl Ar-lein	15/04/2024
Yr e-Lyfrgell mewn Ffocws - Cyfrifon Personol	08/08/2024
MedicinesComplete - Sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr 1 o 2	22/08/2024
MedicinesComplete - Sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr 2 o 2	27/08/2024
MedicinesComplete - Hyfforddiant i Ddefnyddwyr Terfynol	05/09/2024
MedicinesComplete - Hyfforddiant i Ddefnyddwyr Terfynol	10/09/2024
Ailgyflwyno Academi Scopus	10/09/2024
Yr e-Lyfrgell mewn Ffocws - Polisi ac Ymarfer Cymdeithasol	27/09/2024
Healthcare Admin Database	26/09/2024
Yr e-Lyfrgell mewn Ffocws: Proffiliau personol BMJ	07/10/2024
Yr e-Lyfrgell mewn Ffocws - y Casgliad Cymdeithaseg	08/10/2024
Chwilio am gyfeiriadau ac arddangosiad Scopus	24/10/2024
Egluro Hawlfraint	27/11/2024
Gweminar ClinicalKey	26/11/2024
Cyflwyniad i Scopus	12/11/2024
Dosbarth Meistr Ysgrifennu Llawysgrifau (Elsevier)	20/02/2025
Cyhoeddi eich Gwaith: Persbectif cyhoeddwr: BMJ	10/02/2025
Cyhoeddi eich Gwaith: Persbectif cyhoeddwr: British Journal of Nursing	11/02/2025
Cyhoeddi eich Gwaith: Persbectif cyhoeddwr: Wiley	27/02/2025
Cyhoeddi eich Gwaith: Persbectif cyhoeddwr: Wolters Kluwer	27/02/2025

Partneriaid A Rhanddeiliaid Strategol

Ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym wedi gweithio'n agos â'r tîm ymchwil a symud gwybodaeth i gynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu â'r sector gofal cymdeithasol trwy gyflwyno gweithdai ar sut i ddefnyddio'r e-Lyfrgell a chael y budd mwyaf ohoni. Rydym hefyd wedi cefnogi drwy fynychu eu sioeau teithiol ledled Cymru a chefnogi defnyddwyr cymwys i gael mynediad i'r e-adnoddau.


Gweithdai ar gyfer Partneriaid a Rhanddeiliaid Strategol	Dyddiad
Sesiwn galw heibio i roi adborth ar y wefan	25/06/2024
Gweithdy Gofal Cymdeithasol Cymru	25/07/2024
Arddangosiad OVID NutriHealth	30/07/2024
Gweithdy Gofal Cymdeithasol Cymru	27/09/2024
Gweithdy Gofal Cymdeithasol Cymru	19/11/2024
Gweithdy Defnyddwyr Awdurdodedig	11/12/2024
Gweithdy OpenAthens	11/12/2024
Gweithdy dangosfwrdd data Power BI	11/12/2024
Hyfforddiant caffael	18/03/2025
Grŵp Ffocws AI GIG Cymru a CLA	25/03/2025




Arloesi




Mae'r ymrwymiad i arloesi, datblygu a thyfu ein casgliadau a'n systemau yn sicrhau bod gwasanaeth yr e-Lyfrgell yn parhau i fod yn gyfredol â gwasanaethau tebyg ar draws sectorau. Mae'r tîm wedi rhagori ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) a osodwyd gan gymryd rhan mewn prosiectau Pum (5) Gwlad ychwanegol, gan ymchwilio ac adrodd ar ddwbl nifer yr arloesiadau digidol a rhoi polisiau a gweithdrefnau newydd ar waith i gefnogi llywodraethu cadarn.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) canlynol yn ymwneud â sut y bydd yr e-Lyfrgell yn datblygu ac yn tyfu ei chasgliadau, ei systemau a'i gwybodaeth. O'r saith (7) Dangosydd Perfformiad Allweddol, cyflawnwyd pob un.

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Wedi'i gyflawni	Sylwebaeth
Ymchwiliwyd ac adroddwyd ar o leiaf dri (3) arloesedd digidol newydd neu e-adnodd newydd.	Ydy 	Ymchwiliwyd ac adroddwyd ar chwe (6) arloesedd digidol neu adnodd a system newydd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Deallusrwydd Artiffisial a'r offer canlyniadol gan gynnwys Primo Research Assistant Rhyngwyneb defnyddiwr (UI) newydd EBSCO y mae cymuned o ddiddordeb wedi'i sefydlu i brofi'r rhyngwyneb cyn ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mewngofnodi Sengl Just in Time Mudo system Mewngofnodi Sengl (SSO) yr e-Lyfrgell o Wasanaethau Ffederasiwn Cyfeiriadur Gweithredol Microsoft (ADFS) i Microsoft Entra Storfeydd Sefydliadol i gefnogi'r gwaith o weithredu Polisi Mynediad Agored IGDC

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Wedi'i gyflawni	Sylwebaeth
100% o'r e-adnoddau a argymhellwyd wedi'u hadolygu yn unol â'r polisi datblygu casgliadau.	Ydy 	Adolygwyd yr holl adnoddau a argymhellwyd i'r e-Lyfrgell yn unol â'r polisi datblygu casgliadau a'r amserlen caffael. P'un a gafodd adnoddau eu caffael ai peidio, hysbyswyd defnyddwyr terfynol o benderfyniad Bwrdd y Gwasanaeth, a darparwyd dolenni i'r adnoddau iddynt ar ôl i'r gwaith caffael gael ei gwblhau.
O leiaf 6 chyfarfod Hyrwyddwyr y flwyddyn i adolygu argymhellion ynghylch datblygiadau i wasanaeth yr e-Lyfrgell.	Ydy 	Cynhaliwyd pob cyfarfod yr hyrwyddwyr yn ôl eu hamserlen.
100% o bolisiau'r e-Lyfrgell wedi'u hadolygu yn ôl eu hamserlen adolygu.	Ydy 	Cwblhawyd y tri (3) pholisi a oedd i fod i gael eu hadolygu: <ul style="list-style-type: none"> • Y polisi caffael • Y Polisi Defnyddwyr Awdurdodedig • Y Polisi Datblygu Casgliadau Yn ogystal, crëwyd pedwar (4) polisi newydd, sef: <ul style="list-style-type: none"> • Y Cynllun Parhad Busnes • <u>Polisi Mynediad Agored IGDC</u> • Y Model Cymorth ar gyfer Ymholiadau • <u>Polisi AI</u> at ddibenion llyfrgell, gwybodaeth ac ymchwil

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Wedi'i gyflawni	Sylwebaeth
Tîm yr e-Lyfrgell i fynd i o leiaf dri (3) digwyddiad diwydiant, cynhadledd, a chyfleoedd dysgu a hyfforddi a chyflwyno adrodd arnynt.	Ydy 	Gwnaeth tîm yr e-Lyfrgell fynd i ddeg (10) o ddigwyddiadau, cynadleddau a sesiynau dysgu a hyfforddi'r diwydiant, cyflwyno ynddynt a/neu gyflwyno adroddiad arnynt.
Adolygwyd a gweithredwyd 100% o'r holl adborth ar brofiad defnyddwyr gwefannau.	Ydy 	Mae'r holl adborth gan ddefnyddwyr terfynol ynghylch gwefan yr e-Lyfrgell yn cael ei ychwanegu at gofnod gweithredu'r wefan y mae'r Llyfrgellydd Arbenigol yn ei adolygu ac yn ei weithredu bob wythnos.
Collaborate with national digital library services from across the Five (5) nations on a minimum of one (1) project or programme.	Ydy 	Mae tîm yr e-Lyfrgell wedi arwain <u>Grŵp Gorchwyl a Gorffen e-Lyfrau Pum (5) Gwlad y GIG</u> ac wedi cefnogi gwaith o ail-gaffael Grŵp gwaith Cytundeb Fframwaith Electronig ac Argraffedig NICE, yn cytuno ar newidiadau i safonau gwasanaeth craidd a lotiau ychwanegol i'r fframwaith i gefnogi'r gwaith caffael.

Deallusrwydd Artiffisial

Gyda'r dirwedd Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn newid yn barhaus, mae'r e-Lyfrgell wedi datblygu **Canllaw Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer ymchwil, llyfrgell a gwybodaeth** ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i ganfod a chrynhai tystiolaeth yn unol â deddfwriaeth hawlfraint. Mae hyn wedi cefnogi'r gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth ehangach yn GIG Cymru i ddarparu'r wybodaeth a'r arweiniad diweddaraf i'w defnyddwyr. Yn ogystal, mae'r e-Lyfrgell wedi cydweithio â'u partneriaid strategol i ddrafftio Polisi AI ar gyfer ymchwil, llyfrgell a gwybodaeth. Mae'r polisi wedi cael ei adolygu gan aelodau Comisiwn Deallusrwydd Artiffisial Cymru cyn ceisio cymeradwyaeth gan Grŵp Llywio a Bwrdd Rheoli Deallusrwydd Artiffisial IGDC yn ail chwarter 2025-26 (2). Mae'r polisi'n berthnasol i bob defnyddiwr e-Lyfrgell sydd wedi'i drwyddedu o dan Drwydded Hawlfraint GIG Cymru a bydd ar gael i'r cyhoedd yn nhrydydd chwarter 2025-26.

Gan weithio gyda Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth GIG Cymru a Phrifysgol Caerdydd, cafodd cynorthwydd ymchwil Primo Research Assistant, sydd ar gael trwy LibrarySearch GIG Cymru (y catalog llyfrgell a rennir), ei 'lansio'n feddal' ym mis Ionawr 2025. Gellir gofyn cwestiwn i'r Offeryn Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn iaith naturiol, a bydd wedyn yn ei ddefnyddio i chwilio am gynnwys Llyfrgell GIG Cymru, sy'n cynnwys casgliadau electronig e-Lyfrgell GIG Cymru a chynnwys Mynediad Agored i'w ateb. Nodyn: mae rhai eithriadau i gyhoeddwyr, a gellir dod o hyd i fanylion yn y **canllaw i ddefnyddwyr**.

Mae'r Cynorthwydd Ymchwil yn dod o hyd i bum (5) dogfen y mae'n eu hystyried mai dyma'r rhai mwyaf perthnasol i'r cwestiwn ac mae'n crynhai'r wybodaeth berthnasol i ddarparu ateb. Yn 2025-26, bydd yr offeryn yn cael ei lansio'n swyddogol ochr yn ochr â chanllawiau i ddefnyddwyr terfynol cyfatebol a chaiff ei hyrwyddo i gefnogi chwiliadau am wybodaeth.



Just In Time

Rydym wedi cydweithio â Phrifysgol Caerdydd i ddarparu Mewngofnodi Sengl (SSO) Just in Time (JiT) ar gyfer LibrarySearch GIG Cymru. Mae'r fenter newydd hon yn golygu y gall defnyddwyr cymwys, am y tro cyntaf, fewngofnodi i'r catalog gan ddefnyddio'r un set o fanylion ag y maen nhw'n eu defnyddio i gyrchu'r holl systemau ac adnoddau eraill yr e-Lyfrgell. Bydd defnyddwyr GIG Cymru yn defnyddio eu cyfeiriad e-bost a'u cyfrinair NADEX. A bydd pob defnyddiwr cymwys arall yn defnyddio eu henw defnyddiwr a chyfrinair OpenAthens. Erbyn mis Hydref 2024, ar ôl defnyddio JiT SSO ddiwedd mis Mai 2024, roedd naw cant a thri ar ddeg (913) o gyfrifon wedi'u creu. Dyma naw cant a thri ar ddeg (913) o ddefnyddwyr na fyddent fel arall wedi cael mynediad i'r ymarferoldeb gwell sydd ar gael ar y catalog oni bai eu bod wedi cofrestru ar wahân gyda'u gwasanaeth llyfrgell lleol. Mae hyn yn arbed amser i'r defnyddiwr, ond mae hefyd yn cefnogi'r gwasanaeth llyfrgell trwy gynnig cyfleoedd ymgysylltu pellach gyda defnyddwyr nad ydynt efallai'n mynd i'r gofod llyfrgell ffisegol.

Mynediad Agored

Ym mis Hydref 2024, datblygodd tîm yr e-Lyfrgell [Bolisi Mynediad Agored IGDC](#) i sicrhau bod gwaith a gafodd ei arwain neu ei gefnogi gan IGDC yn cael ei gyhoeddi yn agored ac yn hygyrch i'r cyhoedd. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyhoeddi Mynediad Agored yn codi proffil y gwaith a'r sefydliadau a'i gynhyrchodd, gan arwain at fwy o gyfleoedd i gydweithio, ymgysylltu a datblygu syniadau. Lansiodd [Storfa Ymchwil a Gwybodaeth newydd IGDC](#) ochr yn ochr â'r Polisi Mynediad Agored, ac mae'r tîm wedi gweithio i ychwanegu gweithiau cyhoeddedig IGDC yn ôl-weithredol, er mwyn feithrin hunaniaeth ein sefydliad yn y gofod ymchwil.

Grŵp Tasg A Gorffen E-Lyfrau Pum (5) Cenedl Y GIG

Enwebwyd GIG Cymru gan Grŵp Adnoddau Digidol y Pum Gwlad i arwain prosiect sydd bellach wedi datblygu polisi Datblygu Casgliadau safonol a gofynion gwahoddiad i dendr ar gyfer e-Lyfrau. Mae hyn yn sicrhau mynediad cyfartal ar draws y gwledydd ac yn cefnogi ymgysylltiad cyflenwyr o ran anghenion gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth y GIG ar draws y DU ac Iwerddon. Bydd y polisi a'r gofynion yn cael eu rhannu gyda rhanddeiliaid yn chwarter cyntaf 2025-26 fel rhan o ymgynghoriad ar-lein ac ymarfer grŵp ffocws cyn cael eu lansio yn ail chwarter 2025-26.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Aeth tîm yr e-Lyfrgell i ddwy ar bymtheg (17) o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn 2024-25. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cefnogi dysgu a datblygu mewn perthynas â chwilio am lenyddiaeth, rheoli prosiectau, Deallusrwydd Artiffisial a'r potensial ar gyfer cydweithio traws-sector

Teitl	Pwy a oedd yn bresennol	Pwrpas	Dyddiad
Cynhadledd UKSG	Arweinydd Arbenigol	Presenoldeb yn unig	31/03/2024 – 02/04/2024
Deallusrwydd Artiffisial a chyhoeddi academaidd: Beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig i awduron, darllenwyr a chyhoeddwyr?	Arbenigwr Llyfrgell	Presenoldeb yn unig	13/05/2024
Hyfforddiant Adolygiad Systematig SURE	Arweinydd Arbenigol	Presenoldeb yn unig	15-18/04/2025
Hyfforddiant MeSH	Arweinydd Arbenigol	Presenoldeb yn unig	21/05/2024
Cyflwyniad i Gloddio Testun a Data ar gyfer gweithwyr proffesiynol gwybodaeth – Hawliau, Trwyddedu a Chynhyrchion	Arweinydd Arbenigol	Presenoldeb yn unig	22/05/2024
Hyfforddiant Chwilio am Lenyddiaeth	Arweinydd Arbenigol Arbenigwr Llyfrgell Arbenigwr Ymgysylltu a Dysgu Swyddog Cymorth	Presenoldeb yn unig	05/06/2024
Cwrs hunanarweiniol WIDI Agile	Arweinydd Arbenigol Arbenigwr Llyfrgell	Presenoldeb yn unig	11-13/06/2024
Cynhadledd NHSWLKS	Arweinydd Arbenigol	Presenoldeb yn unig	20/06/2024

Teitl	Pwy a oedd yn bresennol	Pwrpas	Dyddiad
Hyfforddiant ar gymwysiadau Microsoft 365 (amryw o sesiynau)	Arweinydd Arbenigol Arbenigwr Llyfrgell	Presenoldeb yn unig	24-26/06/2024
Cynhadledd y Grŵp Llyfrgelloedd Iechyd	Arbenigwr Ymgysylltu a Dysgu (Cyflwyniad poster) Swyddog Cymorth	Cyflwyno a phresenoldeb	20-21/06/2024
Cyfnewid Gwybodaeth: Caredigrwydd a lles mewn cyfnodau anodd	Arweinydd Arbenigol	Presenoldeb yn unig	27/11/2024
Fforwm UKSG	Arweinydd Arbenigol	Presenoldeb yn unig	05/12/2024
Gweminar UKSG: Arddangosfa SHERIF: Powering Progress with Enhancement	Rheolwr yr e-Lyfrgell a Gwasanaeth Gwybodaeth	Presenoldeb yn unig	21/01/2025
Libraries and positive climate action: is digital a problem or a solution?	Rheolwr yr e-Lyfrgell a Gwasanaeth Gwybodaeth	Presenoldeb yn unig	13/02/2025
OpenAthens Access Lab	Arweinydd Arbenigol Arbenigwr Llyfrgell	Presenoldeb yn unig	24-25/02/2025
Fforwm Cyflogwyr CILIP	Rheolwr yr e-Lyfrgell a Gwasanaeth Gwybodaeth	Presenoldeb yn unig	06/03/2025
Diwrnod Agored EBSCO	Rheolwr yr e-Lyfrgell a Gwasanaeth Gwybodaeth	Presenoldeb yn unig	11/03/2025

Cyfeiriadau

Rhif Mynegai	Enw'r Ddogfen
DHCW-ToR-51	Cylch Gorchwyl IGDC - Bwrdd Gwasanaeth e-Lyfrgell GIG Cymru
DHCW-ToR-52	Cylch Gorchwyl IGDC - Hyrwyddwyr e-Lyfrgell GIG Cymru
ELIB-BCP-1	Cynllun Parhad Busnes yr e-Lyfrgell
ELIB-SOP-20	Model Cymorth e-Lyfrgell GIG Cymru
ELIB-POL-1	Polisi Cyhoeddi Mynediad Agored IGDC
	E-LYFRGELL GIG CYMRU Cynllun Tair Blynedd Ebrill 2022 – Mawrth 2025
	Polisi IGDC - Defnyddwyr Awdurdodedig e-Lyfrgell GIG Cymru
	Polisi IGDC - Datblygu Casgliad e-Lyfrgell GIG Cymru
	Polisi IGDC - Adferiad ar ôl Trychineb yn e-Lyfrgell HS Cymru

1. Blease, C., Locher, C., Gaab, J., Hägglund, M., and Mandl, K. (2024) 'Generative artificial intelligence in primary care: an online survey of UK general practitioners', *BMJ Health & Care Informatics*, 31(1), pp. e101102. Available at: <https://doi.org/10.1136/bmjhci-2024-101102> (Accessed 20 July 2025).

2. Middleton, B. and Walsh, K. (2025) The AI check-up: we pitted BMJ Best Practice against Gen-AI. The results weren't even close. Available at: <https://bestpractice.bmj.com/info/us/blog/> (Accessed 20 July 2025).